**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**Dyddiad:** 18 Ionawr 2019

**Amser:** 9.30yb

**Lleoliad:** CUBRIC, Maindy Road, Caerdydd. CF24 4HQ

**AGENDA**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau | 09:30 – 09:35 | |
| 2. | Prif Weinidog Cymru, Rt Hon Mark Drakeford AC | 09:35 – 09:40 | |
| 3. | Y Darpar Gwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AC | 09:40 – 09:45 | |
| 4. | Y diweddaraf am hynt y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gan gynnwys gwaith datblygu portfolio. | 09:45 – 10:45 | WPMC(19)147 |
| 5. | Cofnodion mis Medi, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi, gan gynnwys:<br>(i) Papur ar materion RDP a godwyd | 10:45 – 10:55 | WPMC(19)152 |
| 6. | Fframwaith Perfformiad | 10:55 – 11:10 | WPMC(19)148 |
| 7. | Themau Trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol Trechu Tlodi<br><br>Papur i Nodi. | | WPMC(19)149 |
| 8. | Cyflwyniad - Jonathan Price Prif Economegydd | 11:10 – 11:25 | |
| | ***Egwyl*** | | |
| 7. | Y diweddaraf ar raglen Ymchwil a Gwerthuso | 11:25 – 11:55 | WPMC(19)150 |
| 8. | Y diweddaraf ar Cyfarthrebu RDP | 11:55 – 12:10 | WPMC(19)151 |
| 9. | Y diweddaraf ar Ddyfodol Polisi Rhanbarthol | 12:10 – 12:25 | |
| 10. | Cyflwyniad – Bargen Dinas Caerdydd | 12:25 – 12:40 | |
| 11. | Unrhyw Fater Arall:<br><br>(i) Y diweddaraf ar Adroddiadau Gweithrediad Blynyddol | 12:40 – 12:55 | |

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014–2020**
**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Iau 13 Medi 2018**
**Gwesty'r Imperial, Llandudno**

# Nodiadau'r Cyfarfod

## EITEM 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) Cymru. Rhestrir y bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau yn Atodiad A. Diolchodd y Cadeirydd i'r ysgrifenyddiaeth am drefnu'r cyfarfod yn Llandudno a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnal cyfarfodydd yn y rhanbarthau.

## EITEM 2: Cofnodion cyfarfod mis Mai, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi

Hysbyswyd yr aelodau bod y diwygiadau a gafwyd wedi'u cynnwys yn y cofnodion a ddosbarthwyd i'r aelodau. Ni chafwyd rhagor o sylwadau, felly, gan ystyried y diwygiadau hynny; cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Cododd tri aelod, cynrychiolwyr o CLlLC, Grwpiau Gweithredu Lleol a chyfranddalwyr gwaith datblygu dan arweiniad y gymuned, nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r broses ganlynol:

- Yn dilyn diweddariad llafar ar yr Addasiadau i'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng nghyfarfod diwethaf PMRh ar 4 Mai, anfonodd Ysgrifenyddiaeth PMRh e-bost at aelodau'r PMRh ar 30 Mai yn gofyn am eu sylwadau ar yr addasiadau arfaethedig i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys y dyraniadau ariannol ar gyfer mesur 7 o'r Rhaglen, h.y. y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Gofynnwyd i'r aelodau roi eu barn, os oeddent yn teimlo bod hynny'n briodol, ond ni ofynnwyd iddynt gymeradwyo'r addasiad.
- Roedd Atodiad 1 o'r Adroddiad, a ddosbarthwyd i'r aelodau, yn amlinellu'r cynigion ar gyfer yr ail addasiad i'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac yn nodi'n benodol bod y dyraniad ar gyfer Mesur 7 wedi gostwng yn sylweddol, gan leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o €51 miliwn i €23 miliwn. Y prif reswm a roddwyd dros y gostyngiad oedd nad oedd gan y grwpiau cymunedol a oedd yn gwneud ceisiadau y capasiti sydd ei angen i fanteisio ar y cynllun buddsoddi cymunedol hwn.
- Atebodd CLlLC Ysgrifenyddiaeth PMRh gan ddweud nad oedd o blaid lleihau'r arian sydd ar gael ar gyfer Mesur 7 ac nad oedd yn cymeradwyo'r ffordd y penderfynodd Llywodraeth Cymru wneud hynny heb roi cyfle i'r aelodau drafod y mater yng nghyfarfod PMRh.

Y pryderon penodol a godwyd gan yr aelodau oedd:

- Y ffordd y cafodd y newidiadau eu gwneud i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys lleihau'r arian sydd ar gael i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig,

heb ymgynghori'n ystyrlon â PMRh h.y. ni chafodd PMRh gyfle i drafod y newidiadau arfaethedig.

- Y ffordd y cafodd PMRh ei gamarwain h.y. gofyn am farn aelodau mewn e-bost a datgan yn glir nad oedd gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r newidiadau ond bwrw ymlaen â'r newidiadau beth bynnag fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiadau ar addasiadau'r Rhaglen.
- Mae'r gostyngiad ariannol yn golygu y bydd llai o gyfleoedd i gymunedau gwledig gael arian ar gyfer gwaith datblygu economaidd-gymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.
- Mae'r rhesymau a roddwyd dros y gostyngiad h.y. diffyg capasiti ymhlith grwpiau i gael yr arian, yn annheg o ystyried cymhlethdodau'r broses. Mae hyn yn gamarweiniol gan fod gwneud cais am arian gan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn broses hynod o anodd, os nad amhosibl, a llafurus, gyda phroses ar-lein gymhleth WEFO, anawsterau cyfathrebu a diffyg eglurder oll yn rhwystrau mawr i grwpiau.
- Roedd cam gweithredu penodol yng nghofnodion cyfarfod diwethaf PMRh ar 4 Mai i Eleanor Marks edrych ar y broses o wneud cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Hyd y gwyddom, nid yw hyn wedi digwydd.
- Mae CLlLC a Grwpiau Gweithredu Lleol wedi mynegi pryderon i swyddogion Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf am gymhlethdodau ac anawsterau'r broses gwneud cais am arian. Y broses sy'n peri'r problemau, nid yr ymgeisydd.
- Nid yw'r Grŵp Llywio Datblygiad Dan Arweiniad y Gymuned, sy'n gweithredu fel corff ymgynghori a chyfathrebu ar gyfer rhanddeiliaid, ymgeiswyr grant, Grwpiau Gweithredu Lleol a grwpiau cymunedol, wedi cyfarfod ers mis Ionawr ac mae'r diffyg cyfathrebu hwn wedi gwaethygu'r anawsterau a grynhoir uchod. Yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio ym mis Ionawr, trafodwyd opsiynau i wella'r broses o wneud cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ond ni fu unrhyw ymgysylltu ers y drafodaeth honno.
- Mae hyn yn adlewyrchu pryder ehangach na fu unrhyw ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru o safbwynt y polisi datblygiad dan arweiniad y gymuned ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio ym mis Ionawr.

Mewn ymateb i hyn, eglurodd Gordon Smith, Dirprwy Bennaeth yr Awdurdod Rheoli, yn ôl y rheoliadau, nad oes yn rhaid i PMRh gymeradwyo'r addasiad er mwyn iddo gael ei gyflwyno ac, oherwydd terfynau amser tynn y Comisiwn, y bu'n rhaid ei gyflwyno erbyn diwedd mis Mehefin fan bellaf. Cytunodd Hugh Morgan, Pennaeth yr Asiantaeth Dalu, i ystyried safbwyntiau'r aelodau a rhoi ymateb iddynt.

**CAM GWEITHREDU – Llywodraeth Cymru i roi ymateb i'r aelodau i fecanwaith cyflawni Blaenoriaeth 6 a'r rheswm dros y newidiadau ariannol yn yr addasiad i'r Rhaglen Datblygu Gwledig.**

**EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys datblygiad portffolio**

<u>Trosolwg</u>

Rhoddodd Sioned Evans drosolwg o gynnydd Rhaglenni ers y cyfarfod ar 4 Mai 2018 a thynnodd sylw at flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol:

- Mae addasiadau i raglenni Cronfeydd Strwythurol i'w cytuno gan y CE wedi cael eu cyflwyno ac mae negodiadau'n dod i ben.
- Yn gyffredinol, mae ymrwymiad rhaglenni wedi cynyddu o 67% i 81% (82% ERDF ac 80% ESF)
- Mae'r arian a gymeradwywyd ar gyfer prosiect Metro wedi cyfrannu at gynnydd yn lefel yr ymrwymiad ar gyfer rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; disgwylir i'r arian gael ei gyhoeddi'n fuan gan y Gweinidog.
- Ar hyn o bryd, mae dros 200 o weithrediadau wedi cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, sy'n werth mwy na £3bn o fuddsoddiad (h.y. gan gynnwys arian cyfatebol); mae 70 o weithrediadau eraill ar y cam cynllunio busnes.
- Lefel ymrwymiad prosiectau presennol y Rhaglen Datblygu Gwledig yw 69% (£568m), sy'n cynnwys £31m arall a ymrwymwyd ers diweddariad diwethaf PMRh.
- Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn ei gwarant ar gyfer gwariant hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020 ond mae rhai manylion ynghylch cwmpas sy'n cael eu trafod o hyd â Llywodraeth y DU.
- Ar 23 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei tranche cyntaf o hysbysiadau technegol pe bai'r DU yn gadael yr UE ym mis Mawrth 2019 heb gytundeb. Ysgrifennodd Sioned at yr holl fuddiolwyr er mwyn amlinellu'r sefyllfa yng Nghymru a rhoi sicrwydd iddynt.  Mae hysbysiadau technegol am yr ERDF a'r ESF wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU heddiw, gyda hysbysiad ar Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) i ddilyn yn fuan. Bydd Sioned yn anfon llythyr arall at fuddiolwyr yn ddiweddarach heddiw mewn ymateb i'r hysbysiadau diweddaraf hyn.
- Cafodd adroddiad cryno annibynnol ar ganfyddiadau ymarfer ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru ar ei phapur polisi 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.
- Yn yr haf, cytunodd Gweinidogion i swyddogion fynd ati i ddatblygu Polisi Rhanbarthol Trawslywodraethol a model Buddsoddi Rhanbarthol newydd i Gymru.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at fuddsoddi 100% o arian mewn prosiectau cyn diwedd mis Mawrth 2019 a bydd yn gweithio gyda phob buddiolwr i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyflym i sicrhau'r gwariant llawn ar draws y rhaglen.
- Yn achos ERDF ac ESF, ystyrir yn fuan p'un a fyddwn yn gorymrwymo arian er mwyn helpu i sicrhau'r gwariant mwyaf. Mae profiad o gyflawni rhaglenni blaenorol yn awgrymu y gellid gorymrwymo 5% ar gyfer ERDF a 10% ar gyfer ESF o ystyried y tanwariant tebygol.
- Bwriedir ymgysylltu ymhellach ar ddyfodol buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru, a nodwyd bod safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar hyn yn llawer cliriach na safbwyntiau'r gweinyddiaethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU.
- Ar 1 Awst, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar Reoli Effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE, sy'n edrych ar sut mae WEFO yn rheoli risgiau a chyfleoedd yn sgil goblygiadau Brexit.  Nododd yr adroddiad fod WEFO yn gwneud yn dda o dan amgylchiadau anodd ac yn rheoli risgiau

mewn amgylchedd ansicr. Roedd hi'n galonogol nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer WEFO.

- Mae dau brosiect, sef ASTUTE a Nant Gwrtheyrn, wedi cael eu dewis ar gyfer rownd derfynol Gwobrau RegioStars y CE. Caiff yr enillwyr eu cyhoeddi mewn seremoni wobrwyo ym Mrwsel ar 9 Hydref.

Diolchodd y Cadeirydd i Sioned Evans am ei chyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau gan yr aelodau. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd Sioned fod gwarant Llywodraeth y DU yn cwmpasu costau prosiectau a gymeradwywyd hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020, ond bod Cymorth Technegol yn debygol o fod ar wahân. Ychwanegodd Peter Ryland, oni bai y gellir dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ynghylch arian Cymorth Technegol, y gallai fod yn anodd rheoli camau i gyflawni'r rhaglenni Ar y cyfan, fodd bynnag, caiff pryderon allweddol am gyflawni'r rhaglenni eu lliniaru gan y terfyn amser estynedig.

Rhaglen ERDF

Cafwyd cyflwyniad powerpoint gan Ken Cook, Pennaeth Ynni, WEFO, mewn ymateb i gais blaenorol PMRh i leihau gwaith papur a symleiddio'r ffordd y caiff data eu cyflwyno. Mae'r holl ddata ar ddangosyddion a ddarparwyd yn flaenorol i PMRh bellach ar gael ar-lein a chânt eu diweddaru bob mis mewn fformatau hygyrch y gellir eu trin. Felly, canolbwyntiodd y cyflwyniad ar negeseuon allweddol a chynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol. Tynnodd Ken sylw at y pwyntiau canlynol ar gyfer rhaglenni ERDF:

Ar hyn o bryd, mae 82% wedi'i ymrwymo ar draws y ddwy raglen (£985m) gyda 115 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo i gyd. Roedd dau arall wedi cael eu cymeradwyo ers i'r adroddiad gael ei lunio yn dangos ffigurau diwedd mis Awst, gan gynyddu'r ymrwymiad i 83% ar ddyddiad y cyfarfod.

Mae £218m o Arian yr UE wedi cael ei dalu allan, tra bod y targed N+3 ar gyfer 2018 wedi cael ei gyrraedd ar gyfer rhaglen ERDF Dwyrain Cymru, mae WEFO yn hyderus y caiff targed N+3 rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ei gyrraedd cyn diwedd y flwyddyn.

O ran ymrwymiad a gwariant, Blaenoriaeth 3 (Ynni) yw'r her fwyaf o hyd. Mae'r ymrwymiad wedi codi i 47% (o 33%). Mae datblygu ynni'r môr yn faes cymhleth, o gofio ei natur dechnegol a'r amgylchedd rheoliadol llym, fodd bynnag, mae'r gwaith sydd yn yr arfaeth yn galonogol iawn a phan gaiff y gwaith hwn ei ychwanegu at yr hyn sydd wedi'i gymeradwyo'n barod, byddai blaenoriaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gordanysgrifio'n sylweddol. Mae ynni cymunedol hefyd yn araf i ddatblygu prosiectau gweithredol, am nad oes gan grwpiau cymunedol y capasiti na'r arian cyfatebol gofynnol yn aml iawn.

O ran gwariant, mae Cymru'n perfformio'n dda gan wario 18% o'i hymrwymiad o gymharu â'r cyfartaledd Ewropeaidd, sef 9%, a chyfartaledd Lloegr, sef 7%.

Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd dangosyddion ar gyfer pob blaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: mae perfformiad dangosyddion yn dderbyniol, gyda chanlyniadau'n fwy tebygol o gael eu cofnodi tua diwedd y rhaglen. Dylai perfformiad wella o un cyfarfod PMRh i'r llall.
- Blaenoriaeth 2: mae dangosyddion yn perfformio'n dda.
- Blaenoriaeth 3: mae cynnydd araf wedi effeithio ar berfformiad dangosyddion. Os caiff cynigion sydd ar y cam cynllunio busnes eu cymeradwyo, disgwylir i berfformiad wella.
- Blaenoriaeth 4: gyda buddsoddiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith a chyfalaf mawr yn bennaf, disgwylir i ddangosyddion gael eu cyflawni tua diwedd y rhaglen.

Pwysleisiodd Ken Cook ei bod hi'n bwysig i fuddiolwyr gyflwyno eu hawliadau am daliadau, a nododd mai'r prif heriau ar gyfer y dyfodol yw sicrhau'r gronfa berfformiad wrth gefn, sicrhau bod gwariant yn bodloni lefelau ymrwymiad a bod dangosyddion yn adlewyrchu cyflawniad, monitro ecwiti ar gam cynnar yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a sicrhau bod prosiect Metro yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen.

Nododd un aelod fod y cyflwyniad yn ddefnyddiol iawn o gymharu â'r adroddiadau blaenorol, ond gofynnodd a fyddai modd ychwanegu data meintiol at y siartiau yn ogystal â chanrannau er mwyn rhoi mwy o gyd-destun ynghylch graddfa pob dangosydd (ac, felly, faint o bwyslais y mae angen i aelodau PMRh ei roi ar bob un).

Gofynnodd aelod arall i adroddiad naratif ynghylch y ffigurau gael eu hanfon at aelodau cyn cyfarfodydd yn y dyfodol, ond rhai llai manwl na'r rhai a ddarparwyd ar gyfer cyfarfodydd blaenorol PMRh. Byddai hyn yn galluogi'r aelodau i ymgynghori ag etholwyr yn fwy effeithiol. Croesawodd Marek Beran o'r Comisiwn Ewropeaidd fformat newydd y cyflwyniadau hefyd ac atgoffodd yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno copïau o'r data ar-lein drwy system SFC ar gyfer cofnodion y CE. Diolchodd Sioned Evans i'r Aelodau am eu sylwadau a chytunodd i fynd i'r afael â'u ceisiadau cyn cyfarfod nesaf PMRh.

**CAM GWEITHREDU – Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad naratif gyda phapurau PMRh i gefnogi cyflwyniadau yng nghyfarfodydd PMRh yn y dyfodol**

<u>Rhaglen ESF</u>

Hysbysodd Jane McMillan, Pennaeth Rhaglenni ESF, WEFO, yr aelodau am y gwaith da sy'n cael ei wneud ar draws ESF, gyda lefel ymrwymiad o 80% (£689m) ac 85 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo erbyn hyn. Yn ogystal, roedd £194m o arian ESF wedi cael ei dalu allan.

Hysbyswyd yr aelodau fod targedau N+3 2018 a bennwyd gan y CE wedi cael eu cyrraedd a bod WEFO ar y trywydd cywir hefyd i gyrraedd targedau o ran y Gronfa Berfformiad Wrth Gefn. Fel gyda'r rhaglenni ERDF, mae pwysigrwydd annog buddiolwyr i gyflwyno eu hawliadau a sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni'n unol â'r rhagolygon y cytunwyd ar eu cyfer yn parhau'n allweddol. Disgwylir i'r CE benderfynu'n fuan ar yr addasiadau i'r ESF a gyflwynwyd gan WEFO ar ddiwedd mis Mehefin.

Mae ymrwymiad a gwariant yn rhaglen ESF Dwyrain Cymru rhywfaint yn arafach na rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae gwahoddiad diweddar ar gyfer Blaenoriaeth 1 Dwyrain Cymru (Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth) wedi ysgogi buddsoddiad sylweddol gyda nifer o brosiectau bach yn cael eu cyflwyno. Yn y cyfamser, bydd yr addasiad arfaethedig, sy'n golygu symud arian allan o Flaenoriaeth 1, yn helpu hefyd i gyflawni'r ymrwymiad llawn.

Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd dangosyddion ar gyfer pob blaenoriaeth;

- Blaenoriaeth 1 (Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth): mae perfformiad yn symud i'r cyfeiriad cywir; mae rhai problemau o ran y cynnydd a wneir i gefnogi pobl sydd wedi cael eu diswyddo, ond mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried cyflwr presennol y farchnad lafur. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae WEFO yn ceisio ymestyn cwmpas y prosiect diswyddiadau allweddol, REACT, er mwyn rhoi cymorth i bobl a gaiff eu cyfrif yn bobl sy'n ddi-waith am gyfnod byrdymor.
- Blaenoriaeth 2 (Sgiliau): mae dangosyddion yn perfformio'n dda.
- Blaenoriaeth 3 (Cyflogaeth Pobl Ifanc): mae dangosyddion yn perfformio'n dda.

Mae'r prif heriau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cynnal y cyflymder presennol o ran ymrwymiad a chyflawniad a gweithgarwch prosiectau; sicrhau'r gwariant uchaf yn erbyn lefelau ymrwymiad; sicrhau'r gronfa berfformiad; sicrhau bod prosiectau'n parhau i gydweithio er mwyn osgoi dyblygu gweithgareddau ac, yn amodol ar gytundeb y CE, gyflawni'r flaenoriaeth newydd. Ychwanegwyd hefyd fod cymorth ar gael i brosiectau drafod gweithgareddau ac osgoi dyblygu gwaith mewn perthynas â rhaglen newydd Cymru'n Gweithio gan Lywodraeth Cymru.

Hysbysodd Joanna Gawrylczyk- Malesa o'r Comisiwn Ewropeaidd yr aelodau y caiff penderfyniad y CE ar addasiad rhaglen ESF Dwyrain Cymru ei gyhoeddi'n fuan.

Hysbysodd y cadeirydd yr Aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf Jane McMillan gyda PMRh cyn iddi ymddeol ym mis Tachwedd. Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Jane am ei chymorth a'i gwaith ar gronfeydd yr UE, a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

<u>Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig</u>

Cadarnhaodd Neil Howard, Pennaeth Uned Rheoli'r Cynllun, fod yr ail addasiad wedi cael ei gyflwyno a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Comisiwn Ewropeaidd. Ar lefel prosiect, mae cyfanswm o £567.9m wedi'i ymrwymo, sef 69% o arian y Rhaglen. Mae gwariant cyffredinol y Rhaglen hyd yma wedi cynyddu mwy na £31m ers cyfarfod diwethaf PMRh i £229m (£163m Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), y mae £94.2m ohono'n gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn I. O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 775 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a cheisiadau uniongyrchol i gyflwyno cais llawn. Ers agor y Grant Busnes i Ffermydd, mae pedair ffenestr wedi cael ei chynnal ac mae cyfanswm o 1,594 o ffermwyr wedi cael eu cymeradwyo, gyda gwariant o £6.9m hyd yma.

Mae oedi wrth brosesu mewn perthynas â'r agweddau economaidd-gymdeithasol ar y Rhaglen yn achosi ffigurau cyflawni is na'r disgwyl ar gyfer y cam hwn o'r Rhaglen. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers y cyfarfod diwethaf, fel y dangosir gan y gwariant ychwanegol o £31m.

Hysbysodd Neil Howard yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiad "Gwerthuso LEADER/CLLD[1]", a gaiff ei hwyluso gan Ddesg Gymorth Ewrop ar gyfer Gwerthuso Datblygiad Gwledig, ymhen pythefnos (27 Medi 2018) yn Llandudno. Mae holl Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru wedi cael eu gwahodd i'r digwyddiad ynghyd â chynrychiolwyr o Grwpiau Gweithredu Lleol a gweinyddiaethau datganoledig y DU. Bydd y digwyddiad yn rhoi gwybodaeth am sut y dylai rhanddeiliaid perthnasol strwythuro, cynnal ac ysgrifennu gwerthusiad LEADER/CLLD ar lefel y Rhaglen Datblygu Gwledig ac ar lefel leol.

Mae £35.2m ychwanegol yn cael ei arfarnu ar gyfer Cyswllt Ffermio, a fydd yn cynyddu ymrwymiadau pob Blaenoriaeth yn sylweddol o ganlyniad i ddull traws-raglen/Ardaloedd Ffocws lluosog Mesurau 1 a 2[2]. Rowndiau sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd i'r dyfodol ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Grant Busnes i Ffermydd sy'n werth £30.6m a fydd yn cyfrannu at ymrwymiadau Blaenoriaeth 2 a 5 am eu bod yn cyflawni o dan dri Maes Ffocws. Mae £2m ychwanegol yn cael ei arfarnu ar gyfer y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio ac mae gan y Cynllun rowndiau sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd i'r dyfodol sy'n werth £37.7m a fydd yn cyfrannu tuag at ymrwymiadau Blaenoriaeth 3 a 6. Mae £8.8m ychwanegol yn cael ei arfarnu ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac mae gan y Gronfa rowndiau sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd i'r dyfodol sy'n werth £8.6m a fydd yn cyfrannu tuag at ymrwymiadau Blaenoriaeth 5 a 6. Mae £9.2m yn cael ei arfarnu ar gyfer Hybu Cig Cymru (Menter Strategol Amaethyddol) a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at ymrwymiadau Blaenoriaeth 6. Mae £3m arall o hawliadau yn y system ar hyn o bryd ar gyfer Blaenoriaeth 6 a byddem yn gobeithio sicrhau bod y rhain i gyd yn cael eu talu ym mis Medi. Rydym hefyd yn mynd i geisio sicrhau bod rhagor o hawliadau, sy'n hwyr ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno a fydd yn helpu gyda thargedau cerrig milltir Fframwaith Perfformiad 2018.

Darparwyd diweddariad ar gynnydd ym mhob blaenoriaeth;

- Mae'r cynlluniau hynny sydd wedi'u rhaglennu o dan Flaenoriaeth 2 wedi bod yn araf i gyflawni i ddechrau, fodd bynnag, maent yn rhagweld bellach y byddant yn cyrraedd y targedau.
- Nid oes pryderon ynghylch cynlluniau sydd wedi'u rhaglennu o dan Flaenoriaeth 3 ac mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y gallant gyrraedd y targedau gwreiddiol.

---

[1]CLLD = Datblygiadau Dan Arweiniad y Gymuned

[2] CYWIRIAD - Dyrannwyd £ 35.2m ychwanegol i Fesurau 1 a 2, a fydd yn cynyddu pob ymrwymiad Blaenoriaeth yn sylweddol oherwydd ymagwedd draws-raglen / aml-ganolbwynt Mesurau 1 a 2. Roedd y datganiad gan swyddogion yn ystod y cyfarfod PMC yn gamgymeriad anffodus. Mae'r £ 35m yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i Fesur 1 (Trosglwyddo Gwybodaeth) a oedd yn cael ei gynnig gan swyddogion ac roedd yn cael ei adolygu cyn i argymhelliad gael ei wneud i Ysgrifennydd y Cabinet. Mae cyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig a ddyrannwyd i Gyswllt Ffermio ar gyfer y cyfnod rhaglen gyfredol yn £ 27,750,295.

- Yn achos y cynlluniau sy'n helpu i gyflawni Blaenoriaeth 4, nid oes unrhyw broblemau na phryderon mawr, fel y dangosir yn y tablau Ymrwymiad a Gwariant.
- Fel Blaenoriaeth 2, mae'r cynlluniau hynny sydd wedi'u rhaglennu o dan Flaenoriaeth 5 wedi bod yn araf i gyflawni i ddechrau, fodd bynnag, maent yn rhagweld bellach y byddant yn cyrraedd y targedau.
- Yn achos Blaenoriaeth 6, mae cynnydd araf wrth arfarnu a chymeradwyo ceisiadau prosiectau o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi arwain at beth beirniadaeth allanol. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar atebion i gyflymu'r broses arfarnu. Mae ffenestri Datganiadau o Ddiddordeb o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi gordanysgrifio ond mae'n anodd trosi Datganiadau o Ddiddordeb yn geisiadau llawn oherwydd natur yr ymgeiswyr.  Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffenestri sy'n weddill o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn gwella perfformiad.

Ychwanegodd Tom Smithson, Pennaeth Tîm Strategaeth WEFO, fod yr holl ddata yn cael eu cyhoeddi ar-lein a bod llawer o waith wedi cael ei wneud i wella cywirdeb yr adroddiadau hyn. Atebodd ymholiadau penodol am y data a dderbyniwyd gennym cyn y cyfarfod.

**CAM GWEITHREDU – Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb drwy e-bost i'r holl ymholiadau unigol am ddata a anfonwyd i Ysgrifenyddiaeth PMRh.**

Cafwyd 4 ymholiad gan un aelod am ddyfodol y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a LEADER, isod:

1. A all Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth am y posibilrwydd o ymestyn LEADER o fis Rhagfyr 2021 i 2023, a hefyd y posibilrwydd o wneud cais am fwy o arian LEADER?
2. A all Llywodraeth Cymru roi gwybod i aelodau am ddyddiadau'r ffenestri Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig e.e. Cynllun Rheoli Cynaliadwy, Cadwyn Gyflenwi, Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac ati?
3. Yng nghyfarfod PMRh ym mis Mai, nodwyd bod gwerth tua £15 miliwn o geisiadau???? ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig dal rhwng y cam Datgan Diddordeb a'r cam Cymeradwyo Terfynol - o ystyried y newidiadau presennol i'r Gronfa a'r anawsterau a brofodd y grwpiau hyn drwy gydol y broses, pa gymorth bydd ar gael i'r ymgeiswyr hyn i sicrhau bod eu prosiectau'n cael cymeradwyaeth derfynol?
4. Nodwyd y byddai tua £8miliwn ar gael drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – a gaiff yr arian hwn ei weinyddu drwy strwythurau presennol y Gronfa neu drwy'r grant newydd ar gyfer Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru?

Cytunodd Neil Howard i ateb yr ymholiadau hyn y tu allan i gyfarfod PMRh.

**CAM GWEITHREDU – Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ysgrifenedig i'r ymholiadau.**

Diolchodd un aelod i Lywodraeth Cymru am lanlwytho taenlenni ar-lein ac am wella cadernid a chywirdeb ac adleisiodd sylw a wnaed gan aelod arall yn gynharach gan ddweud yr hoffai gael ochr naratif yr adroddiad o hyd.

Roedd Sasha Bartovic o'r Comisiwn Ewropeaidd wedi llongyfarch Llywodraeth Cymru am wella'r Rhaglen Datblygu Gwledig a dywedodd ei bod yn galonogol iawn gweld lefel ymrwymiad o 69%.

**EITEM 4: Fframwaith Perfformiad**

Rhoddodd Tom Smithson, Pennaeth Strategaeth WEFO ddiweddariad ar Fframwaith Perfformiad pob Rhaglen. Eglurodd y byddai rhai o'r dangosyddion yn cael eu diwygio fel rhan o'r addasiadau sy'n cael eu gwneud i bob rhaglen, fel y cytunwyd yn flaenorol â PMRh.

ERDF – Disgwyl cyflawni holl ddangosyddion allbwn fframwaith perfformiad 2018 yn dilyn yr addasiadau. Mae negodiadau'n dod i ben, ond mae WEFO'n rhagweld y bydd angen cyfaddawdu ar y dangosyddion ariannol. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd hi'n anodd iawn cyrraedd targed ariannol fframwaith perfformiad 2018 ar gyfer pob rhaglen ym Mlaenoriaeth 3. Caiff tabl wedi'i ddiweddaru ei gyflwyno i'r aelodau ar ôl cytuno ar yr addasiadau, er mwyn amlygu hyn ymhellach ac egluro'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd. Mae'r rhain yn faterion hirsefydlog y mae PMRh wedi'u trafod ym mhob cyfarfod.

Gan fod WEFO yn disgwyl cyrraedd pob targed gwariant N+3 ar gyfer y rhaglenni, ni fyddai'r rhaglenni'n colli unrhyw arian. Canlyniadau methu â chyrraedd un o dargedau'r fframwaith perfformiad ar gyfer Blaenoriaeth yw y bydd angen i'r gronfa berfformiad wrth gefn gysylltiedig (tua 6% o'r Echel Blaenoriaeth dan sylw) gael ei hailddyrannu i Echel Blaenoriaeth arall. Felly, ni fyddai Cymru'n colli arian pe na fyddem yn cyrraedd targed gwariant fframwaith perfformiad Blaenoriaeth 3, ond byddai'n cael ei symud i rywle arall.

ESF – Mae llawer o dargedau 2018 eisoes wedi cael eu cyrraedd ac mae disgwyl i'r gweddill gael eu cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd yr addasiad yn effeithio ar y targedau sgiliau sylfaenol am y cânt eu cyfuno â sgiliau is er mwyn datrys y gamddealltwriaeth gychwynnol ynglŷn â diffiniadau (mae PMRh wedi cael ei friffio ar y mater hwn a chytunodd â'r rhesymeg).

Rhaglen Datblygu Gwledig – Disgwylir i fwyafrif targedau 2018 gael eu cyrraedd o dan y rhaglen, neu fodloni'r trothwyon goddefiant. Blaenoriaeth 6 sy'n peri'r broblem fwyaf (LEADER a'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig) oherwydd ni ddisgwylir i'r targedau gael eu cyrraedd o dan y proffiliau presennol. Dyma bwnc yr addasiad, felly gall y sefyllfa newid. Fel y nodwyd ar gyfer ERDF, os bydd Blaenoriaeth 6 yn methu'r targedau, nid yw'r rhaglen yn colli'r gronfa berfformiad wrth gefn. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn rhaid i ni ailddyrannu'r arian hwnnw i feysydd blaenoriaeth eraill sydd wedi cyrraedd eu targedau, ond bydd yn aros o fewn y rhaglen.

**CAM GWEITHREDU – Llywodraeth Cymru i anfon diweddariad arall ar ôl i'r addasiadau gael eu cwblhau gan na fydd PMRh yn cwrdd eto cyn diwedd y flwyddyn.**

Gofynnodd un Aelod a fyddai modd i ni symud arian y Gronfa Berfformiad Wrth Gefn o un Flaenoriaeth i un arall. Cadarnhaodd Tom y gallem wneud hynny o hyd ond ei bod yn broses gymhleth iawn. Mae hyn yn bosibl gan ei bod yn ymddangos mai dim ond un Flaenoriaeth ym mhob rhaglen sy'n wynebu risg o fethu â chyrraedd targedau'r fframwaith perfformiad. Felly, byddai angen ailddyrannu cronfa berfformiad wrth gefn y blaenoriaethau hyn i'r blaenoriaethau hynny sydd wedi cyrraedd eu targedau. Gofynnir i Aelodau am gyngor ynghylch ble y dylid ailddyrannu arian yn ystod 2019.

Atgoffodd Marek Beran Lywodraeth Cymru fod angen i'r Fframwaith Perfformiad fod yn gyson ag AIR. Gofynnwyd i Marek anfon manylion yr anghysondebau i flwch post Ysgrifenyddiaeth PMRh fel y gellid ymchwilio iddynt.

**EITEM 5: Cyfraddau Gwallau'r Rhaglen Datblygu Gwledig**

Rhoddodd Hugh Morgan, Pennaeth yr Asiantaeth Dalu, wybodaeth i'r aelodau am gyfraddau gwallau presennol y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r camau a gymerwyd i leihau'r gwallau a ragwelwyd yn y gronfa.

Pwysleisiodd Sasha Bartovic o'r Comisiwn Ewropeaidd ei bod hi'n bwysig trafod y papur yn ystod cyfarfod PMRh. Mae sicrhau bod y Rhaglen yn cydymffurfio o fudd i bawb.

**EITEM 6: Themâu Trawsbynciol: Datblygu Cynaliadwy**

Cyflwynodd Rhian Power-Battrick, Cynghorydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol, WEFO, y papur Trawsbynciol ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae'r papur yn darparu'r adolygiad blynyddol o gynnydd o ran gweithredu Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy fel rhan o Raglenni Cyllid Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ERDF ac ESF.

Dangoswyd fideo i'r aelodau o rai prosiectau, gan gynnwys IMPACT, a oedd wedi llwyddo i gynnwys gwaith datblygu cynaliadwy yn eu gweithgareddau. Yna gwahoddwyd yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

Gofynnodd un aelod a oedd unrhyw bryder am gynnydd y dangosyddion a ddangosir yn Atodiad 1. Ymatebodd Chriss O'Connell, Pennaeth Themâu Trawsbynciol, gan ddweud bod llai o bryder nag o'r blaen oherwydd y gwaith y mae'r tîm Themâu Trawsbynciol wedi'i wneud gyda noddwyr prosiectau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y maes hwn. Ychwanegodd hefyd fod Dangosyddion Themâu Trawsbynciol ar Lefel Achos i gyd yn gwneud cynnydd da iawn sy'n dangos bod prosiectau'n gwneud llawer o waith datblygu cynaliadwy.

**EITEM 7: Cynllun Cyfathrebu Blynyddol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

Cyflwynodd Alison Sandford, Pennaeth Uned Friffio a Chyfathrebu WEFO, bapur ar gynllun cyfathrebu blynyddol WEFO ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn 2018, a chynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynllun yn cefnogi'r Strategaeth

Gyfathrebu gyffredinol y cytunwyd arno gan PMRh rhyw dair blynedd yn ôl. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

Er gwaethaf hinsawdd heriol Brexit, mae WEFO yn llwyr ymrwymedig o hyd i hyrwyddo cyfleoedd a chyflawniadau arian yr UE yng Nghymru, ac mae'n cefnogi rhanddeiliaid, y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a buddiolwyr i wneud yr un peth.

- Mae gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu ers yr adroddiad cyfathrebu diwethaf a gyflwynwyd i PMRh. Er enghraifft, mae'r cyfrif Twitter wedi denu 600 o ddilynwyr newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr a anfonir bob pythefnos wedi dyblu i fwy na 6,100.

- Parhau i sicrhau sylw cadarnhaol o tua 98% i arian yr UE. Un llwyddiant diweddar oedd yr arian ar gyfer STEM a Technocamps 2, a gyhoeddwyd i gyd-fynd ag ymweliad proffil uchel gan y gofodwr Tim Peake â Chymru. Roedd hyn yn ei dro wedi helpu i roi mwy o gyhoeddusrwydd i arian yr UE.

- Parhau i gydlynu cyhoeddusrwydd â rhaglenni cyllid eraill yr UE, gan gynnwys Horizon 2020 a rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Er enghraifft, mae'r rhaglenni prif ffrwd yn cael llawer o sylw yn nigwyddiad blynyddol H2020 a'r e-gylchlythyr.

- Cysylltu gweithgarwch Themâu Trawsbynciol â mesurau cyhoeddusrwydd, er enghraifft, cyhoeddwyd trydariadau ar IMPACT a Hwb Trafnidiaeth Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Diwrnod Amgylchedd y Byd er mwyn dangos bod datblygu cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau wedi cael eu cynnwys yn llwyddiannus yn y prosiectau hyn.

- Ar gyfer Diwrnod Ewrop, gwnaethom ddefnyddio'r cyfle i hyrwyddo neges gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid am gydberthynas bwysig Cymru ag Ewrop ac i gyhoeddi arian ychwanegol er mwyn rhoi hwb i sgiliau.

- Rydym yn gweithio ar gronfa ddata newydd ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo, ond rydym yn cydymffurfio o hyd â rheoliadau'r CE drwy gyhoeddi taenlen hygyrch.

- Mae dau brosiect wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau RegioStars eleni, a byddwn yn hyrwyddo eu llwyddiant adeg y seremoni wobrwyo ym mis Hydref.

- Mae gwobrau WEFO ei hun wedi denu cryn dipyn o ddiddordeb. Mae'r ceisiadau'n cael eu didoli ar hyn o bryd a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn ein digwyddiad blynyddol ar 5 Rhagfyr.

Diolchodd y cadeirydd i Alison am ei diweddariad ac am barhau i roi cyhoeddusrwydd i bwysigrwydd a buddiannau arian yr UE, yn enwedig yn ystod hinsawdd anodd Brexit.

Croesawodd un Aelod y gwaith a gaiff ei wneud i ddatblygu map rhyngweithiol o brosiectau cymeradwy a gaiff eu hariannu gan yr UE yng Nghymru, a gofynnodd a fyddai modd ei gysylltu â gwaith tebyg sy'n cael ei wneud fel rhan o fargen ddinesig

Abertawe er mwyn llunio neges gryfach a mwy cydlynol ynghylch buddsoddiad rhanbarthol. Cytunodd Alison Sandford i ymchwilio ymhellach i'r mater, ac ychwanegodd Jane McMillan y caiff cysylltiadau posibl eu hystyried wrth i brosiectau Bargen Ddinesig gael eu rhoi ar waith.

**EITEM 8: Adroddiad Gweithredu Blynyddol: Sylwadau Aelodau PMRh ac Ymatebion yr Awdurdod Rheoli**

Darparwyd papur ar gais aelodau PMRh.

**EITEM 9: Diweddariad ar Ddyfodol Polisi Rhanbarthol**

Rhoddodd Tom Smithson, Pennaeth Tîm Strategaeth WEFO, ddiweddariad ar bapurau polisi Brexit ychwanegol a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf PMRh. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar *Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.* Mae crynodeb annibynnol o'r ymatebion i'r papur *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* wedi cael ei gyhoeddi hefyd ac mae'r canfyddiadau wedi cael eu trafod â Gweinidogion. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bwriadu gwneud datganiad llafar ar y camau nesaf i ddatblygu polisi rhanbarthol a model buddsoddi newydd ar gyfer Cymru ym mis Hydref.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gymryd rhan mewn unrhyw raglenni cyllid eraill gan yr UE yn ystod 2021-2027. Mae Cymru yn awyddus i allu parhau i gymryd rhan fel trydedd wlad mewn nifer o'r rhain, sy'n golygu bod yn rhaid i reoliadau a gaiff eu cyflwyno nawr alluogi hyn i ddigwydd. Mae'n rhaid i Drysorlys EM hefyd gytuno i dalu am fynediad parhaus a negodi trefniadau partneriaeth priodol. Mae'r Trysorlys wedi cadw opsiynau'n agored ac mae'n cael sgyrsiau cadarnhaol â Llywodraeth Cymru ar gymryd rhan yn Horizon 2020, Erasmus, Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a Rhaglen Cymru Iwerddon yn y dyfodol.

Ychwanegodd Rob Halford fod WEFO yn gwneud llawer iawn o waith i baratoi ar gyfer y dyfodol. Er nad yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw eglurder o hyd ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU, mae'n anodd i Lywodraeth y DU anwybyddu cymwyseddau datganoledig Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith datblygu polisi a gwblhawyd eisoes mewn perthynas â Dyfodol Polisi Rhanbarthol yng Nghymru, a gaiff ei ddatblygu ymhellach drwy waith cyd-gynhyrchu â phartneriaid, yn bwysig iawn hefyd.

Mae Cytundeb Partneriaeth y DU wedi cael ei ddwyn i sylw'r tîm o fewn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddatblygu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU fel enghraifft o ddull gweithredu ar draws y DU sy'n parchu cymwyseddau datganoledig, gyda phennod ar wahân yn y cytundeb i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Ychwanegodd Huw Bryer fod parhad yn allweddol ac y gallai fod angen i ni ddefnyddio'r gwerthusiad i ddysgu a thorri'r gôt yn ôl y brethyn er mwyn cadw lefel allweddol o sgiliau. P'un a fydd cytundeb ai peidio, dywedodd Sioned Evans fod gennym brosiectau i'w cyflawni a bod honno hefyd yn neges bwysig.

**EITEM 10: Unrhyw Fater Arall**

Caiff cyfarfod nesaf PMRh a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Rhagfyr ei gynnal bellach ar 18 Ionawr 2019.

Ddydd Gwener 14 Medi, cynhaliodd yr Aelodau gyfres o ymweliadau â phrosiectau a ariennir gan yr UE yn y Gogledd.  Ymwelwyd â'r prosiectau canlynol:

KESS 2 ym Mhrifysgol Bangor
Castell Gwrych
Rheilffordd Ucheldir Cymru
Galeri Caernarfon
MSparc
SEACAMS

**Ysgrifenyddiaeth PMRh Medi 2018**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014–2020**
**CYMRU**
**PWYLLGOR MONITRO'R RHAGLENNI**

**Dydd Iau 13 Medi 2018**
**Gwesty'r Imperial, Llandudno**

**Cadeirydd –** Julie Morgan (AC)

***Enwebir yr aelodau ar sail gynrychioliadol, o bartneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Tom Whyatt | Busnes a Menter (Diwydiant Cymru) |
| Lowri Owain | LEADER |
| Lowri Gwilym | Eilydd dros Rob Stewart Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Charlotte Priddy | Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) |
| Rachel Lewis-Davies | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) |
| Huw Bryer | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Janine Dowling | Eilydd dros Phil Fiander, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| David Blaney | CCAUC |
| Rachel Garside-Jones | Llywodraeth Cymru |
| Rhian Jardine | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ceri Jones | Eilydd dros yr Athro Richard Davies Addysg Uwch |

***Aelodau wedi'u dethol drwy'r broses Penodiadau cyhoeddus:***

| |
|---|
| Beth Winkley |
| Sian Price |
| David (Dai) Davies |
| Grahame Guilford |

***Cynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Guus Muijzers | Comisiwn Ewropeaidd, DG Regio |
| Joanna Gawrylczyk-Malesa | Comisiwn Ewropeaidd, DG Employ |
| Marek Beran | Comisiwn Ewropeaidd, DG Agri |

| | |
|---|---|
| Sasha Bartovic | Comisiwn Ewropeaidd, DG Agri |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

| | |
|---|---|
| Sioned Evans | Prif Weithredwr, WEFO (ERDF ac ESF) |
| Hugh Morgan | Pennaeth yr Asiantaeth Dalu |
| Gordon Smith | Dirprwy Bennaeth yr Awdurdod Rheoli |
| Neil Howard | Pennaeth yr Uned Rheoli Cynlluniau |
| Peter Ryland | Dirprwy Gyfarwyddwr, WEFO (ERDF ac ESF) |
| Rob Halford | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO |
| Ken Cook | Pennaeth Cangen dros Ynni, WEFO |
| Jane McMillan | Pennaeth Rhaglenni ESF, WEFO |
| Tom Smithson | Pennaeth Strategaeth, WEFO |
| Chriss O'Connell | Pennaeth Themâu Trawsbynciol, WEFO |
| Rhian Power-Battrick | Themâu Trawsbynciol, WEFO |
| Alison Sandford | Pennaeth yr Uned Friffio a Chyfathrebu, WEFO |
| Cath Cleaton | Ysgrifenyddiaeth |
| Nadine Young | Ysgrifenyddiaeth |
| Aled Wright | Ysgrifenyddiaeth |

***Ymddiheuriadau:***

| | |
|---|---|
| Derek Walker | Busnes a Menter: Mentrau Cymdeithasol (y Trydydd Sector) |
| Tim Render | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Julie Cook | Cyngres yr Undebau Llafur |
| Yr Athro Richard Davies | Addysg Bellach |
| Y Cynghorydd Rob Stewart | CLlLC |
| Rudi Plaut | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru / Commerce Cymru |
| Joy Kent | |

## Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo Cyllid

1. Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
3. Caiff data ar gynnydd o safbwynt cyllid a dangosyddion eu cyhoeddi bob mis ar wefan WEFO yn https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/programme-progress/?skip=1&lang=cy

### Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm[1] | Grant yr UE[1] | Cyfanswm[2] | | Grant yr UE[2] | | Cyfanswm[3] | | Grant yr UE[3] | |
| **ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 29 | 388.7 | 258.0 | 408.7 | (105%) | 245.9 | (95%) | 97.1 | (25%) | 59.5 | (23%) |
| 2 | 7 | 284.8 | 177.8 | 284.4 | (100%) | 166.6 | (94%) | 153.2 | (54%) | 77.6 | (44%) |
| 3 | 11 | 210.3 | 146.0 | 110.5 | (53%) | 69.5 | (48%) | 31.3 | (15%) | 16.8 | (11%) |
| 4 | 39 | 652.6 | 428.5 | 769.9 | (118%) | 433.1 | (101%) | 72.5 | (11%) | 40.9 | (10%) |
| 5 | 7 | 27.6 | 20.6 | 29.7 | (108%) | 22.5 | (109%) | 8.0 | (29%) | 5.6 | (27%) |
| **Cyfanswm** | **93** | **1,564.0** | **1,030.9** | **1,603.2** | **(103%)** | **937.7** | **(91%)** | **362.1** | **(23%)** | **200.4** | **(19%)** |
| **ERDF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 14 | 172.3 | 86.2 | 169.6 | (98%) | 76.1 | (88%) | 30.3 | (18%) | 11.2 | (13%) |
| 2 | 7 | 78.2 | 39.1 | 74.6 | (95%) | 42.3 | (108%) | 51.6 | (66%) | 24.3 | (62%) |
| 3 | 1 | 8.3 | 4.1 | 7.1 | (86%) | 3.6 | (86%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| 4 | 5 | 81.8 | 40.9 | 69.3 | (85%) | 34.6 | (85%) | 16.9 | (21%) | 8.2 | (20%) |
| 5 | 6 | 7.0 | 3.5 | 7.4 | (106%) | 3.0 | (87%) | 1.6 | (23%) | 0.7 | (20%) |
| **Cyfanswm** | **33** | **347.5** | **173.8** | **327.9** | **(94%)** | **159.6** | **(92%)** | **100.4** | **(29%)** | **44.3** | **(26%)** |
| **Cyfanswm ERDF** | **126** | **1,911.5** | **1,204.6** | **1,931.2** | **(101%)** | **1,097.3** | **(91%)** | **462.5** | **(24%)** | **244.8** | **(20%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
[2] Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad
[3] Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

## Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

4. Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 126 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo grant gwerth dros £1,097 miliwn, sef 91% o werth y rhaglenni (91% Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 92% Dwyrain Cymru). Mae camau i neilltuo cyllid yn parhau i fynd rhagddynt yn dda sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa dda i neilltuo'r mwyafrif llethol o'r cyllid cyn i'r DU adael yr UE ond mae heriau penodol i'w hwynebu mewn perthynas â'r Flaenoriaeth Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni. Cyflwynir diweddariad arall i aelodau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru (PMRhC) am y symiau sydd wedi'u neilltuo yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr.

5. Hyd yma, mae £200.4m (19% Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a £44.3m (26% Dwyrain Cymru) wedi'i dalu i noddwyr prosiectau ERDF. Ar hyn o bryd, mae

taliadau ERDF gwerth £16.8m ar gyfer Gorllewin Cymru a £4.1m ar gyfer Dwyrain Cymru yn aros i gael eu hawdurdodi gan WEFO; gan ystyried y rhain, mae'r taliadau i noddwyr yn cynyddu i £217.2m (21%) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £48.4m (28%) yn Nwyrain Cymru.

6. Mae'r ffigurau gwariant hyn o dan ERDF wedi arwain at ddefnyddio cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd gwerth 18% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 26% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru, sy'n uwch na chyfartaledd yr UE, sef 13%.

7. Disgwylir i hawliadau ychwanegol gael eu cyflwyno cyn diwedd y flwyddyn, sy'n werth tua €50m, gan gynyddu'r datganiad i 22% a sicrhau y caiff targed N+3 Dwyrain Cymru ar gyfer 2019 ei gyrraedd.

8. Mae cytundebau ffurfiol i'r addasiadau i Raglenni ERDF wedi dod i law.  Er bod y targedau ariannol ar gyfer Blaenoriaeth 4, Cysylltedd, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn parhau i fod yn heriol ac er y gofynnir am hawliadau allbwn yn unig er mwyn sicrhau bod rhai targedau anariannol yn cael eu cyrraedd h.y. Buddsoddi mewn Mentrau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Nifer y partneriaid sy'n cydweithio ar brosiectau ymchwil yn Nwyrain Cymru, rhagwelir y caiff y targedau ar gyfer y gronfa berfformiad wrth gefn eu cyrraedd heblaw am y targed ariannol ar gyfer y Flaenoriaeth Ynni yn Nwyrain Cymru.  Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd y rhaglen yn colli'r gronfa berfformiad wrth gefn gysylltiedig ar gyfer y Flaenoriaeth honno, sy'n fach (tua £250k), oherwydd caiff y gronfa ei hailddyrannu i Flaenoriaeth arall yn Nwyrain Cymru yn 2019.  Nid oes unrhyw effaith ar gyllid a neilltuwyd ar hyn o bryd yn y maes hwn.  Gan fod pob targed N+3 wedi cael ei gyrraedd, ni fydd rhaglenni Cymru yn colli unrhyw gyllid.

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth

### Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi

### Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro’r Rhaglenni (PMRh)

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm | Grant yr UE |
| Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Peirianneg Ynni'r Môr | £7.69m | £5.0m | | |
| Canolfan Arbenigedd Ffotoneg | £5.8m | £3.78m | | |
| Beacon Dwyrain | | | £0.77 | £0.44 |
| Canolfan Ragoriaeth mewn Technolegau Symudol a Thechnolegau sy'n Dod i'r Amlwg (CEMET) | | | £2.54m | £1.27 |
| Beacon Bioburo | £5.72m | £3.79m | | |

9. Mae swm uchel o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y Flaenoriaeth hon, gyda 95% wedi'i neilltuo yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 88% yn Nwyrain Cymru. Bu galw mawr am y cyllid sydd ar gael ar gyfer Ymchwil ac Arloesi a arweinir gan bwysigrwydd strategol arbenigo craff. Adlewyrchir hyn yn y cymeradwyaethau diweddar ym meysydd arbenigo craff ynni'r môr, technolegau digidol a ffotoneg. Disgwylir i'r mwyafrif llethol o'r cyllid sydd ar ôl gael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Mawrth ond mae gwarant Trysorlys y DU yn golygu y gall cyllid gael ei gymeradwyo ar ôl 29 Mawrth os oes angen. Mae cyfleoedd o hyd i neilltuo mwy o gyllid os oes angen, yn enwedig i weithrediadau perfformio.

10. Caiff y portffolio Ymchwil ac Arloesi ei arwain gan yr agenda arbenigo craff a adlewyrchir yn y prif weithrediadau a gymeradwywyd ynghyd â'r gweithrediadau arbenigedd unigol. Mae'r portffolio'n cynnwys 43 o weithrediadau a gymeradwywyd, y mae nifer ohonynt wedi bod yn dechnegol iawn i'w cymeradwyo, ac mae 14 o gynigion eraill yn cael eu datblygu. Er mwyn cyflawni'r agenda arbenigo craff, mae angen i weithrediadau'r portffolio gydymffurfio â'u cynlluniau cyflawni a'u cyllidebau a gwario'r arian. I'r gweithrediadau cydweithio hynny, mae'r un mor bwysig bod y cydberthnasau hynny a gaiff eu meithrin yn datblygu ac yn cynhyrchu canlyniadau allweddol i'r dyfodol. Dim ond os bydd y portffolio hwn yn parhau i esblygu a chyflawni y gellir sicrhau synergeddau allweddol â chyfleoedd cyllido eraill.

11. Mae'r UE yn parhau i wahodd WEFO i gyflwyno ei dull gweithredu mewn perthynas â'r portffolio hwn a'r synergeddau â ffynonellau allanol eraill o gyllid, fel Horizon 2020.

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro’r Rhaglenni (PMRh)**

12. Mae £13m ychwanegol o gyllid ERDF yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £10m ychwanegol o gyllid ERDF yn Nwyrain Cymru wedi cael ei neilltuo i Gronfa Fusnes Cymru Banc Datblygu Cymru, sy'n cynyddu'r lefelau cyllid a neilltuwyd i'r Flaenoriaeth i 94% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 108% yn Nwyrain Cymru.

13. Mae cyfleoedd cyllido eraill ar gyfer gweithgareddau 'niche' yn cael eu hystyried, fel cynnig ar gyfer busnes newydd sy'n targedu sefydliadau yn y trydydd sector a arweinir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru sy'n debygol o symud ymlaen i'r cam cynllunio busnes yn fuan. Er mai ychydig o gyllid sydd ar ôl yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (mae'r holl gyllid wedi'i neilltuo yn Nwyrain Cymru) mae WEFO yn agored o hyd i drafodaethau ynghylch syniadau 'niche' gwerth ychwanegol.

14. Un o'r prif risgiau i'r portffolio hwn yw buddsoddi lefelau sylweddol o gyllid mewn teulu agos o weithrediadau. Er bod hyn yn synhwyrol iawn o safbwynt strategol, mae'n golygu bod tebygrwydd mawr iawn rhwng gweithrediadau o ran cyflawni, cadw at y gyllideb a gwario'r arian sydd ar gael. Trafodir y mater hwn yn y cyfarfodydd adolygu gweithrediadau unigol ond bydd hefyd yn eitem bwysig ar agenda'r digwyddiad P2 blynyddol nesaf a gynhelir ar ddechrau 2019.

**<u>Blaenoriaeth 3:</u> Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)**

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm | Grant yr UE |
| Aráe Bombora yng Nghymru | £14.84 | £10.30 | | |
| System Ynni Microgrid Amldechnoleg GSCS | £14.40 | £8.95 | | |
| Storfa Solar Cymuned Abertawe gyda Chyflenwad Lleol Uniongyrchol | £0.94 | £0.61 | | |

15. Mae natur arloesol y flaenoriaeth yn parhau i beri her i ddarpar noddwyr prosiectau a WEFO ond mae WEFO'n falch o nodi bod lefel y cyllid a neilltuwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi symud i'r cyfeiriad cywir ers cyfarfod diwethaf PMRh. Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae tri gweithrediad wedi cael eu cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf PMRh, sy'n galonogol ar draws y portffolio ar gyfer cynlluniau ynni'r môr a chynlluniau ynni cymunedol ac sy'n golygu bod lefel y cyllid a neilltuwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd bellach yn cyfateb i 48%. Yn amlwg, mae llawer i'w wneud o hyd i neilltuo'r cyllid i gyd ar gyfer portffolio sy'n araf i ddatblygu, ond mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud.

16. Ar nodyn mwy calonogol, mae gweithrediadau posibl yn yr arfaeth a allai ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn hawdd ac er bod y ffaith bod Gwarant Trysorlys y DU wedi cael ei ymestyn i ddiwedd mis Rhagfyr 2020 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddatblygu gweithrediadau ym maes ynni'r môr ac ynni cymunedol, bydd angen i unrhyw weithrediad o'r fath ddangos y gall gyflawni'n llawn erbyn 2023 er mwyn defnyddio'r cyllid er budd gorau'r rhaglen a'r sector. Mae amser nawr yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y cyllid naill ai'n cael ei ddefnyddio at ei ddibenion bwriadedig neu'i ddefnyddio'n well o safbwynt strategol mewn meysydd eraill o'r rhaglen er mwyn sicrhau nad yw Cymru'n colli'r cyllid. I'r perwyl hwnnw, mae WEFO wrthi'n adolygu'r portffolio Ynni, gan gynnwys y prosiectau sydd ar y cam cynllunio busnes a'r cam cyn-cynllunio, a bydd yn cytuno ar gynllun cyfnod penodedig ar gyfer datblygu cynigion i ansawdd digonol fel y gall WEFO fod yn hyderus y cânt eu cymeradwyo a'u cyflawni cyn diwedd 2023. Os bydd angen symud cyllid i feysydd eraill o'r rhaglen, yna bydd angen amser unwaith eto i nodi ble, er mwyn rhoi amser i neilltuo unrhyw gyllid ychwanegol a roddir i'r Blaenoriaethau hynny fel y gellir cyflawni prosiectau'n llawn erbyn diwedd 2023.

17. Mae hyn wedi'i wneud eisoes yn Nwyrain Cymru oherwydd er gwaethaf ymdrechion i geisio annog camau i ddatblygu nifer fach o weithrediadau ynni cymunedol, ni ddangoswyd digon o ddiddordeb ac ar wahân i Weithrediad Arbed, a oedd wedi'i gymeradwyo, cytunwyd, fel rhan o'r addasiad i'r rhaglen, y dylid ailddyrannu cyllid Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru i feysydd eraill o'r rhaglen fel y gellir defnyddio'r cyllid mewn ffordd dda.

18. Fel y dangoswyd eisoes yn y diweddariad hwn, bydd Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru yn methu'r targed ariannol ar gyfer ei chronfa berfformiad wrth gefn. Gan mai dim ond gweithrediad Arbed sydd wedi'i gymeradwyo, nid oes digon o wariant wedi'i ddatgan i gyrraedd y targed. Nid yw methu'r targed hwn yn cael effaith ar lefel rhaglen oherwydd caiff adnoddau eu hailddyrannu i feysydd eraill o'r rhaglen sy'n perfformio'n well. Ar ôl adolygu cymeradwyaeth a chamau cyflawni Arbed sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ni ragwelir y caiff cyllid ei ddadneilltuo i raglen Arbed.

## Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro’r Rhaglenni (PMRh)

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **Grant yr UE** | **Cyfanswm** | **Grant yr UE** |
| Metro - Gwelliannau i Orsafoedd y Cymoedd | £22.97m | £15.08m | | |
| Ethos Tywi, Cei Caerfyrddin | £7.46m | £2.61m | | |
| Hen Goleg – Agor i Fusnes | £1.43m | £0.96m | | |
| Metro – Gwelliannau i Orsafoedd Dwyrain Cymru | | | £24.03m | £12.01m |
| Metro – Stryd y Frenhines | | | £26.71m | £13.35m |

19. Mae Blaenoriaeth 4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'i neilltuo’n llawn ar ôl i £134 miliwn o gyllid ERDF gael ei fuddsoddi yn y Metro a mwy na £50 miliwn o gyllid ERDF gael ei fuddsoddi mewn 19 o weithrediadau ar Safleoedd a gafodd eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Mae'r Prif Weithrediad Cyrchfan Denu Twristiaeth, sydd wedi cael £27 miliwn o gyllid ERDF, wedi neilltuo'r holl gyllid sydd ar gael iddo i 13 o brosiectau sydd ar y cam cyflawni. Yn yr un modd, mae'r prif weithrediad Adeiladu ar gyfer y Dyfodol hefyd yn gwneud cynnydd da gydag 11 o brosiectau wedi'u cymeradwyo sy'n werth bron £19 miliwn o gyllid ERDF. Rhagwelir y caiff gweddill y cyllid ERDF a ddyfarnwyd i'r gweithrediad strategol hwn ei gymeradwyo dros y misoedd nesaf.

20. Fel y nodwyd, mae targed y gronfa berfformiad wrth gefn ar gyfer Blaenoriaeth 4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn heriol ac mae'n ddibynnol i raddau helaeth ar y ddau brif weithrediad a nodir uchod yn datgan digon o wariant i gyrraedd y targed. Mae WEFO wedi bod yn gweithio gyda'r gweithrediadau hyn i sicrhau y gellir gwneud digon o wariant hyd at a chan gynnwys 31 Rhagfyr 2018.

21. Yr her i'r portffolio hwn yn y dyfodol fydd cadw pob gweithrediad ar y trywydd cywir o ran cyflawni, cyllidebau a gwariant. Mae rhywfaint o gyfle i amserlenni cyflawni gweithrediadau lithro sy'n peri risg i weithrediadau seilwaith gan y bydd angen i bob gweithrediad fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023. Gallai'r flaenoriaeth ddefnyddio cyllid ychwanegol a gofynnwyd i'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol nodi rhestr wrth gefn o gynigion cyfyngedig ar gyfer safleoedd

sy'n strategol bwysig er mwyn gwella datblygiad economaidd yn y rhanbarthau ymhellach ond sy'n gallu bodloni amserlen gyflawni heriol.

22. Mae 85% o gyllid Dwyrain Cymru wedi'i neilltuo. Bydd y Metro'n defnyddio'r holl gyllid sy'n weddill ac, fel yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y flaenoriaeth yn y dyfodol fydd sicrhau bod camau cyflawni yn parhau ar y trywydd cywir ac yn cadw o fewn y gyllideb a bod gweithrediadau'n gwario'r cyllid sydd ar gael.

**Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol**

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)**

23. Dim cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod blaenorol PMRh.

24. Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo ac yn y broses o gael eu cyflawni. Nid oes unrhyw broblemau penodol wedi'u codi ac, yn sicr, mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn weithredol ac yn helpu WEFO mewn meysydd blaenoriaeth penodol.

## Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Neilltuo Cyllid

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ESF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

2. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

3. Caiff data ar gynnydd o safbwynt cyllid a dangosyddion eu cyhoeddi bob mis ar wefan WEFO yn https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/programme-progress/?skip=1&lang=cy

### Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm[1] | Grant yr UE[1] | Cyfanswm[2] | | Grant yr UE[2] | | Cyfanswm[3] | | Grant yr UE[3] | |
| **ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 10 | 203.2 | 160.5 | 166.2 | (82%) | 122.3 | (76%) | 49.5 | (24%) | 31.6 | (20%) |
| 2 | 20 | 402.6 | 290.3 | 449.9 | (112%) | 277.6 | (96%) | 212.3 | (53%) | 88.4 | (30%) |
| 3 | 18 | 281.3 | 209.2 | 291.6 | (104%) | 195.8 | (94%) | 97.8 | (35%) | 55.0 | (26%) |
| 4 | 6 | 18.4 | 13.7 | 26.5 | (144%) | 15.4 | (112%) | 8.4 | (46%) | 4.0 | (29%) |
| 5 | 0 | 18.6 | 14.0 | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **54** | **924.1** | **687.7** | **934.2** | **(101%)** | **611.1** | **(89%)** | **368.0** | **(40%)** | **179.0** | **(26%)** |
| **ESF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 7 | 54.8 | 27.4 | 31.6 | (58%) | 15.8 | (58%) | 8.2 | (15%) | 3.5 | (13%) |
| 2 | 11 | 152.0 | 73.6 | 200.8 | (132%) | 52.4 | (71%) | 106.2 | (70%) | 16.2 | (22%) |
| 3 | 12 | 112.5 | 56.3 | 135.8 | (121%) | 48.1 | (85%) | 36.7 | (33%) | 12.6 | (22%) |
| 4 | 5 | 7.0 | 3.5 | 5.8 | (84%) | 2.9 | (84%) | 2.0 | (29%) | 0.9 | (26%) |
| 5 | 0 | 26.6 | 13.0 | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **35** | **352.9** | **173.8** | **373.9** | **(106%)** | **119.1** | **(69%)** | **153.1** | **(43%)** | **33.2** | **(19%)** |
| **Cyfanswm ESF** | **89** | **1,277.0** | **861.4** | **1,308.1** | **(102%)** | **730.3** | **(85%)** | **521.0** | **(41%)** | **212.2** | **(25%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
[2] Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad
[3] Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

## Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

4. Mae 89% o gyllid wedi'i neilltuo yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 69% yn Nwyrain Cymru (85% yn gyffredinol), sy'n golygu bod cyfanswm o £730m wedi'i neilltuo i fuddiolwyr erbyn hyn. Mae pedwar gweithrediad newydd wedi cael eu cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf PMRh yn ogystal â nifer o estyniadau i weithrediadau sy'n bodoli eisoes. Mae WEFO yn bwriadu neilltuo'r £131m sy'n weddill o gyllid ESF drwy gyfuniad o brosiectau newydd

a phrosiectau sydd yn yr arfaeth a thrwy ymestyn prosiectau i gyflawni mwy dros gyfnodau hwy.

5. Talwyd £179m i fuddiolwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £33m i fuddiolwyr yn Nwyrain Cymru – cyfanswm o £212m sy'n cynrychioli bron i 25% o gyllid y rhaglen. Caiff hyn ei drosi'n ddatganiad grant i'r Comisiwn Ewropeaidd gwerth 33% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 35% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd yr UE, sef 14%, a chyfartaledd y DU, sef 8%.

6. Mae holl dargedau N+3 2018 wedi cael eu cyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o gerrig milltir Fframwaith Perfformiad 2018 wedi cael eu cyflawni eisoes hefyd ac rydym yn disgwyl cyflawni pob carreg filltir heblaw am y rhai sy'n ymwneud â'r Flaenoriaeth 5 newydd.

7. Mae camau gan weithrediadau i gefnogi cyfranogwyr yn mynd rhagddynt yn dda. Mae bron 179,000 o gyfranogwyr wedi cael eu cofnodi hyd yma (40% o'r targed cyffredinol). Mae dros 71,000 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau ac mae dros 12,000 wedi cael help i gael cyflogaeth.

**Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth**

**Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**

8. Mae un prosiect newydd wedi cael ei gymeradwyo ers cyfarfod diwethaf PMRh. Gyda chymorth £5.6m o gyllid ESF, bydd prosiect Meithrin, Cymhwyso, Ffynnu yn helpu dros 2,000 o bobl nad oes ganddynt gyflogaeth ddigonol i ddychwelyd i gyflogaeth lawn ac yn helpu pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn gwaith, dychwelyd ar ôl absenoldeb salwch neu fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa. Cyngor Torfaen sy'n arwain y cynllun, gan gydweithio â Chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Merthyr Tudful, Aneurin Leisure ym Mlaenau Gwent a Groundwork Wales.

9. Mae £5.6m arall o gyllid ESF wedi cael ei ddyfarnu i brosiect Pontydd i Waith II er mwyn parhau i hyfforddi, mentora a gwella sgiliau cyflogadwyedd pobl sy'n ddi-waith ers amser hir. Bydd y cyllid yn helpu 4,880 o bobl eraill dros y 4 blynedd nesaf.

10. Mae'r Flaenoriaeth bellach wedi neilltuo 76% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 58% yn Nwyrain Cymru ac mae nifer o gynigion ar gyfer prosiectau newydd yn yr arfaeth ynghyd â cheisiadau am estyniadau.

11. Mae Blaenoriaeth 1 yn ymdrin â'r rhwystrau cymhleth y mae unigolion yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Gan adeiladu ar lwyddiannau cylchoedd cyllid ESF blaenorol, maent yn parhau i ganolbwyntio i raddau helaeth ar waith fel y prif ganlyniad er mwyn i unigolyn ffynnu a mynd i'r afael â thlodi. Mae'r prosiectau yn canolbwyntio fwy byth ar yr unigolion hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth i gyflogaeth megis cyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, cyfrifoldebau gofal plant neu ofalu am oedolion, a sgiliau cyflogadwyedd gwael.

12. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn dal yn addawol gyda thros 33,000 o gyfranogwyr wedi cael cymorth hyd yma fel rhan o'r ddwy raglen. Mae'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn rhagweld y byddant yn helpu bron 113,000 o bobl (127% o dargedau'r Rhaglen Weithredol).

13. Mae llwyddiannau hyd yma yn cynnwys helpu 20% o gyfranogwyr economaidd anweithgar i mewn i waith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (22% yn Nwyrain Cymru). Yn achos y rhai sydd wedi colli eu swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae 60% wedi ennill cymhwyster i wella'u cyflogadwyedd ac agor cyfleoedd gwaith.

14. Mae nifer o ddangosyddion eraill yn is na rhagolygon y prosiectau, yn aml oherwydd tangyfrifwyd yr amser sydd ei angen i baratoi a dod yn gwbl weithredol. Mae rhesymau eraill dros gynnydd araf yn cynnwys mwy o oedi na'r disgwyl rhwng cofrestru a chyflawni canlyniad cadarnhaol wrth weithio gyda'r rheini â rhwystrau lluosog a dwfn i gyflogaeth, ac effaith y gwelliant yn sefyllfa'r farchnad lafur sy'n dangos lefelau isel o ddiweithdra a diswyddiadau ar allu prosiectau i gyflawni.

15. Er bod amodau gwell y farchnad lafur i'w croesawu, mae'n golygu bod rhaglenni ESF yn gweithio'n gynyddol gyda'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur, sy'n aml wedi bod yn economaidd anweithgar am flynyddoedd lawer ac y mae angen lefelau cymorth dwys arnynt cyn y byddant yn barod i weithio. Mae WEFO yn parhau i fonitro prosiectau unigol yn agos a'u cefnogi er mwyn sicrhau gwelliannau.

**Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf**

16. Cafwyd tair cymeradwyaeth newydd ers cyfarfod diwethaf PMRh. Cafodd £1.8m ei gymeradwyo yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £0.6m yn Nwyrain Cymru ar gyfer dau weithrediad ***Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 Cymru*** Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sy'n ceisio helpu cwmnïau ag anghenion sgiliau sy'n gysylltiedig â'r pedwerydd chwyldro diwydiannol. Cafodd £1.2m o gyllid ESF ei gymeradwyo hefyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer gweithrediad ***Limitless*** a arweinir gan Threshold DAS a fydd yn helpu'r rhai sydd wedi goroesi cam-drin domestig a rhywiol a merched eraill mewn cyflogaeth i wella eu safle yn y farchnad lafur ac ennill cymwysterau.

17. Mae hyn yn golygu bod y lefelau a neilltuwyd ar gyfer y Flaenoriaeth yn 96% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 71% yn Nwyrain Cymru, gyda chyfanswm o £330m o gyllid yr UE eisoes wedi'i neilltuo a dim ond £33.9m ar ôl heb ei ddyrannu. Mae nifer o gynigion yn dal i gael eu datblygu a cheir potensial i ymestyn rhai gweithrediadau cymeradwy sydd eisoes yn bodoli am gyfnodau hwy, yn amodol ar berfformiad.

18. Mae'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn dal yn galonogol iawn. Mae dros 95,000 o gyfranogwyr wedi cael eu cofnodi'n barod ac mae cyflawniad yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn gymharol agos at y proffil. Mae mwy o gyfranogwyr ar gyrsiau hyfforddi lefel 3 ac uwch (AP2) nag ar gyrsiau lefel ganolradd a sylfaen (AP1), sy'n ymddangos fel pe bai'n arwydd o anghenion sgiliau uwch yn y gweithle. Mae mwy o fenywod yn cymryd rhan na dynion, yn enwedig yn y categori cyfranogwyr sydd wedi cael addysg uwchradd uwch lle llwyddwyd i ragori'n barod ar nifer ddisgwyliedig y menywod hyd at ddiwedd y rhaglen.

19. Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar yr Addasiad i'r Rhaglen, rydym wedi gallu ychwanegu Amcan Penodol newydd (AP 2.4) ar gyfer *Sgiliau Ymchwil ac Arloesi* at raglen Dwyrain Cymru ac mae tri gweithrediad newydd wrthi'n cael eu datblygu o dan yr AP hwn. Mae'r addasiad hefyd wedi datrys yr anawsterau blaenorol yn AP1 ynghylch y diffiniad o 'dim cymwysterau ffurfiol', a bellach ceir un dangosydd cyfun i gwmpasu 'dim cymwysterau' neu 'gymwysterau isel' ar gyfer yr AP hwn.

**<u>Blaenoriaeth 3:</u> Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**

20. Ers cyfarfod diwethaf PMRh, mae £11.5m ychwanegol o gyllid ESF wedi cael ei ddyfarnu i brosiect Cynnydd er mwyn helpu pobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg. Arweinir y prosiect hwn gan Gyngor Sir Penfro a chaiff ei gynnal mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill a cholegau addysg bellach yn ne-orllewin Cymru. Mae'r buddsoddiad ychwanegol yn cefnogi 3,217 o bobl ifanc eraill sy'n wynebu risg o fod yn NEET.

21. Mae'r Flaenoriaeth bellach wedi neilltuo 94% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 85% yn Nwyrain Cymru ac mae nifer o gynigion ar gyfer prosiectau newydd yn yr arfaeth ynghyd â cheisiadau am estyniadau.

22. Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn dal yn addawol gyda thros 55,500 o bobl ifanc wedi cael cymorth hyd yma fel rhan o'r ddwy raglen. Mae'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn rhagweld y byddant yn helpu bron 113,000 o bobl (90% o dargedau'r Rhaglen Weithredol), a fydd yn cynyddu ymhellach pan fydd yr holl gyllid wedi'i neilltuo.

23. Mae uchafbwyntiau o safbwynt perfformiad hyd yma yn cynnwys helpu 22% o gyfranogwyr NEET i mewn i addysg neu hyfforddiant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (30% yn Nwyrain Cymru); helpu 23% i mewn i gyflogaeth (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru); a helpu 29% i ennill cymwysterau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (31% yn Nwyrain Cymru).

24. Cafodd tri phrosiect STEM newydd (AP 3.3) eu cymeradwyo'r haf hwn a dechreuir adrodd ar allbynnau a chanlyniadau'r buddsoddiadau hyn yn ystod 2019.

25. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ymhlith pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn NEET neu'n debygol o fod yn NEET.

**Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol**

26. Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

27. Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

28. Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y cam tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur rhanbarthol ac ymgysylltu â gweithrediadau ESF.

29. Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo bellach.

**Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol**

30. Cytunwyd ar y Flaenoriaeth newydd hon ym mis Medi fel rhan o'r Addasiad i'r Rhaglen. Mae'r Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar feithrin gallu ar gyfer gwaith rhanbarthol ym maes gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n cynnig cyfle i ddatblygu ymatebion rhanbarthol strategol i Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a strategaethau pwysig eraill sy'n tynnu sylw at yr angen i weithio'n well ar sail ranbarthol.

31. Dechreuodd trafodaethau â phartneriaid rhanbarthol dros yr haf ac mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn helpu i hwyluso hyn. Mae nifer o syniadau posibl ar gyfer prosiectau yn cael eu trafod ym mhob rhanbarth ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i'w helpu i lunio Templedi Rhesymeg Gweithredu. Mae WEFO yn gobeithio nodi rhai prif weithrediadau posibl ar gyfer y Flaenoriaeth hon erbyn mis Chwefror.

32. Cynhaliwyd Gweithdy i drafod y Flaenoriaeth yn ystod Digwyddiad Blynyddol WEFO ar 5 Rhagfyr.

## Llywodraeth Cymru – Cymunedau Gwledig Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020

### Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglen

1. Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid at ddibenion cynllunio o £1:€1.18, sydd wedi newid ers yr adroddiad diwethaf, y lefel neilltuo bresennol ar gyfer y Rhaglen yw £832m (£556m o gyllid yr UE), sef ychydig dros 100% o'r Rhaglen. Ar lefel prosiect, mae cyfanswm o £589.6m wedi'i neilltuo, sef 71% o arian y Rhaglen. Mae gwariant cyffredinol y Rhaglen hyd yma wedi cynyddu mwy na £16m ers cyfarfod diwethaf PMRh i £245m (£175m Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), y mae £99m ohono'n gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn I.
2. Mae'r Rhaglen wedi cyrraedd ei tharged N+3 cyntaf, sef €123.8m. Gwnaed hyn ym mis Tachwedd 2017, ymhell cyn y terfyn amser. Mae rhagolygon presennol yn dangos na ddisgwylir unrhyw broblemau gyda chyflawniadau N+3 hyd at ddiwedd y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i darged 2019, sef €247.6m, gael ei gyrraedd cyn diwedd 2018.
3. Mae diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob carreg filltir i'w weld yn bapur Fframwaith Perfformiad. Mae'r Rhaglen ar y trywydd cywir o hyd i gyflawni'r mwyafrif o gerrig milltir y Fframwaith Perfformiad erbyn diwedd 2018.

### Tabl 1: Dylaniad, Gwariant a Arian Wedi'i Neilltuo

£ Miliynau

| Dyraniad[1] | | Wedi'i Neilltuo[2] | | | | Gwariant[2] | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | EAFRD | CYFANSWM | | EAFRD | | CYFANSWM | | EAFRD | |
| 828 | 551 | 832 | *(100%)* | 556 | *(101%)* | 245 | *(30%)* | 175 | *(32%)* |

Ffynhonell: SCEC, 30-11-2018

[1] Yn seiliedig ar gyfradd drosi o £1:€1.18
[2] Dengys y canrannau gyfran o'r dyraniad

4. Caiff data ar berfformiad y Rhaglen eu cyhoeddi bob mis a gellir eu gweld yma.

### Diweddariad ar Gynlluniau

Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

5. Caeodd ffenestr gyntaf y Grant Amgylchedd newydd "Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru" (ENRaW) 2019-2023 ar ddechrau mis Rhagfyr. Caiff y Grant hwn ei ddarparu o dan Fesur 7.4 a 16.2 o'r Rhaglen. Ni fydd cylchoedd newydd yn y dyfodol o dan y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio na'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.

Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

6. Yn dilyn y diweddariad diwethaf, mae nifer o sesiynau briffio wedi cael eu cynnal â Grwpiau Gweithredu Lleol ar y cyllid sydd ar gael o dan ENRaW 2019-2023. Y dyddiad cau ar gyfer y ffenestr gyntaf o geisiadau oedd dydd Llun 3 Rhagfyr ac yn dilyn proses asesu, caiff ymgeiswyr eu hysbysu erbyn mis Mawrth 2019 a chaiff cyllid ei ddyrannu'n unol â hynny.

Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth

7. Dim gweithgarwch ychwanegol. Nid oes ffenestri wedi'u cynllunio ar gyfer y Cynllun hwn yn y dyfodol.

Partneriaeth Arloesi Ewrop

8. Hyd yma mae'r Bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru, gan annog ffermwyr i gymryd rhan drwy ffurfio Grwpiau Galwedigaethol. Mae 111 o ffermwyr yn aelodau o 19 o Grwpiau Galwedigaethol cymeradwy. Mae cyfanswm o £742k wedi'i ddyfarnu rhwng y 19 o grwpiau, sy'n cyfateb i £39k i bob grŵp ar gyfartaledd (yr uchafswm cymorth cymwys yw £40k). Targed cyffredinol y rhaglen yw cael 45 o grwpiau.

Grant Busnes i Ffermydd

9. Caeodd pumed ffenestr y Grant Busnes i Ffermydd ar ddiwedd mis Hydref a chynigiwyd contractau gwerth tua £6.5m i 958 o ffermwyr. Mae 416 o'r ffermwyr hyn wedi derbyn hyd yma. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn contractau a gynigiwyd yw 23 Rhagfyr 2018.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

10. Cyhoeddwyd canlyniad pumed ffenestr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar 6 Medi 2018. Cyfanswm cost y prosiectau a ddaeth i law drwy'r Datganiadau o Ddiddordeb oedd £72.2m, a gwnaed cais am grant gwerth cyfanswm o £25.5m. Gwahoddwyd 18 ohonynt i gyflwyno ceisiadau llawn erbyn y dyddiad cau, sef 6 Medi 2019. Caeodd chweched ffenestr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar 29 Tachwedd 2018. Roedd y meini prawf cymhwysedd yn cyfyngu ceisiadau Datganiadau o Ddiddordeb i ladd-dai. Daeth wyth Datganiad o Ddiddordeb i law a chyfanswm cost y prosiectau oedd £1.5m a gwnaed cais am grant o £631k. Disgwylir i ganlyniad y ffenestr hon gael ei gyhoeddi ar 24 Ionawr 2019.

Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi

11. Mae'r rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi well yn parhau i roi cymorth i drawsnewid rhagolygon busnes miloedd o ffermwyr a choedwigwyr. Ar 30 Hydref 2018, roedd cyfanswm o 9,806 o Fusnesau gyda 18,384 o unigolion

wedi'u cofrestru â'r rhaglen ac yn cymryd rhan ynddi. Ceir rhagor o wybodaeth am gyflawni rhaglen Cyswllt Ffermio yma.

Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig

12. Mae'r Gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor arbenigol, annibynnol a chyfrinachol sydd wedi'i deilwra i fusnesau sydd wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio. Ar 31 Hydref, mae cyfanswm o 1,561 o fusnesau wedi cael cymorth busnes a/neu gyngor technegol wedi'i deilwra i'w hanghenion. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau cynghori i grwpiau wrth i 798 o unigolion gael cymorth drwy ymgysylltu â 213 o grwpiau.

LEADER

13. Cytunwyd y caiff estyniadau eu cynnig i Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER. Bydd y cyllid hwn yn helpu ymdrechion i newid i gyllid mwy prif ffrwd ar gyfer cymunedau gwledig.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig

14. Caeodd pumed ffenestr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig ar 19 Medi 2018. Mae cyfanswm o naw Datganiad o Ddiddordeb wedi dod i law a gwahoddwyd pob un ohonynt i gyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau, sef 12 Ionawr 2019. Cyfanswm cost y prosiectau a ddaeth i law drwy'r Datganiadau o Ddiddordeb oedd £967k, a gwnaed cais am grant gwerth cyfanswm o £313k. Caeodd chweched ffenestr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig ar 3 Rhagfyr 2018 ac mae'r broses asesu'n mynd rhagddi.

Cynllun Rheoli Cynaliadwy

15. Caeodd pedwaredd ffenestr y Cynllun Rheoli Cynaliadwy ar 6 Medi 2018 gan ddyrannu £5m. Cafwyd cyfanswm o 53 o Ddatganiadau o Ddiddordeb. Cawsant eu sgorio gan ddefnyddio'r meini prawf cymeradwy ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb a arweiniodd at naw Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus a oedd yn gofyn am gyfanswm grant o £4.8m. Gwahoddwyd y Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn erbyn y dyddiad cau, sef 16 Hydref 2019.

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

16. Mae cyfanswm o £6m wedi'i ddyrannu i bedwaredd ffenestr y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Caeodd y bedwaredd ffenestr ar 26 Hydref a chyflwynwyd 476 o Ddatganiadau o Ddiddordeb gyda gwerth grant posibl o £16m. Defnyddir y broses ddethol gystadleuol i ddewis y prosiectau hynny a gaiff eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

17. Mae'r drydedd ffenestr ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb bellach wedi cau. O'r 42 o Ddatganiadau o Ddiddordeb a ddaeth i law, cafodd 11 ohonynt eu gwahodd i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau llawn yn gofyn am gyfanswm grant o £1.4m

<u>Glastir</u>

18. Er bod Mesurau 10 ac 11 yn cael eu cau i gontractau newydd, mae'r Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyhoeddi'r bwriad i ymestyn cytundebau Uwch, Tir Comin ac Organig presennol er mwyn pontio'r bwlch rhwng cynlluniau presennol a'r cynlluniau rheoli tir newydd fydd yn bodoli ar ôl Brexit. Bydd hyn yn helpu i sicrhau canlyniadau amgylcheddol yn y cyfamser ac yn sicrhau bod ffermwyr organig yn parhau i gael cymorth. Bydd cylch arall o Grantiau Bach Glastir hefyd. Mae hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd a geisir trwy addasiad yn 2019.

**Diweddariad ar Gymorth Technegol**

19. Mae'r wyth prosiect yn cyflawni'n unol â'r disgwyl a hawliwyd cyfanswm gwariant o £9.5m erbyn diwedd mis Tachwedd 2018, gyda hawliadau gwerth ychydig dros £670k ar y system yn aros i gael eu hawdurdodi a'u talu.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**Diweddariad ar gynnydd y Fframwaith Perfformiad**

**Mater**

1. I ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gynnydd yn erbyn targedau'r Fframwaith Perfformiad ar gyfer y Rhaglenni.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni nodi cynnwys y papur hwn, gan gynnwys y diweddariad ar gynnydd yn erbyn y targedau Fframwaith Perfformiad isod ac yn Atodiad A.

**Cynnydd hyd yn hyn**

3. Mae'r data cynnydd yn Atodiad A wedi'i seilio ar ddata hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2018. Bydd penderfynu a yw'r fframwaith perfformiad ar gyfer pob Blaenoriaeth wedi'i fodloni ai peidio yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd ar hawliadau am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2018. Bydd y sefyllfa derfynol a gyflawnir yn erbyn y targedau fframwaith perfformiad yn cael ei adrodd yn Adroddiadau Gweithredu Blynyddol 2018 a fydd yn cael eu hystyried gan y PMC yn nes ymlaen yn 2019.

**ERDF**

4. Mae cytundebau ffurfiol i'r addasiadau i Raglenni ERDF wedi dod i law. Er bod y targedau ariannol ar gyfer Blaenoriaeth 4, Cysylltedd, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn parhau i fod yn heriol ac er y gofynnir am hawliadau allbwn yn unig er mwyn sicrhau bod rhai targedau anariannol yn cael eu cyrraedd h.y. Buddsoddi mewn Mentrau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Nifer y partneriaid sy'n cydweithio ar brosiectau ymchwil yn Nwyrain Cymru, rhagwelir y caiff y targedau ar gyfer y gronfa berfformiad wrth gefn eu cyrraedd heblaw am y targed ariannol ar gyfer y Flaenoriaeth Ynni yn Nwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd y rhaglen yn colli'r gronfa berfformiad wrth gefn gysylltiedig ar gyfer y Flaenoriaeth honno, sy'n fach (tua £250k), oherwydd caiff y gronfa ei hailddyrannu i Flaenoriaeth arall yn Nwyrain Cymru yn 2019. Nid oes unrhyw effaith ar gyllid a neilltuwyd ar hyn o bryd yn y maes hwn. Gan fod pob targed N+3 wedi cael ei gyrraedd, ni fydd rhaglenni Cymru yn colli unrhyw gyllid.

**ESF**

5. Mae'r rhan fwyaf o gerrig milltir Fframwaith Perfformiad 2018 wedi cael eu cyflawni eisoes hefyd ac rydym yn disgwyl cyflawni pob carreg filltir heblaw am y rhai sy'n ymwneud â'r Flaenoriaeth 5 newydd.

**RDP**

6. Fel y dangosir yn Nhabl 5 a 6 isod, mae'r RDP wedi cyflawni neu'n rhagfynegi cyrraedd y mwyafrif o dargedau o fewn y Fframwaith Perfformiad, yr eithriad i hyn yw Blaenoriaeth 6. Mae ail ddiwygiad y Rhaglen yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Os cymeradwyir yr addasiad hwn yna byddai'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cyrraedd holl dargedau'r Fframwaith Perfformiad

**Camau nesaf**

7. Bydd WEFO yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i bwyllgor monitro'r rhaglen yn 2019 cynnar, unwaith y bydd hawliadau Rhagfyr wedi'u cyflwyno gan fuddiolwyr.

**Cefndir**

8. Mae gan bob cronfa ariannol ESI (ac eithrio Cydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd) gronfa wrth gefn o 6% o'r dyraniad ariannol mynediad sy'n ddibynnol ar gyrraedd y targedau a osodir yn y fframwaith perfformiad.

9. Mae'r fframwaith perfformiad yn cynnwys dangosyddion ariannol ac allbwn ar gyfer pob blaenoriaeth, gyda osod cerrig milltir a'r targedau ar gyfer diwedd 2018 a 2023. Mae cyflawniad yn erbyn y cerrig milltir yn 2018 yn pennu'r ddyraniad y gronfa perfformiad.

10. Mae'r rheoliadau yn rhagweld y gallu i ddiwygio'r fframwaith perfformiad ac mae WEFO wrthi'n trafod diwygiadau i'r fframwaith gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd, fel rhan o'r addasiadau i'r Rhaglenni. Fodd bynnag, tybir bod y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer Blaenoriaeth wedi'I cyflawni pan :

    - Nad oes mwy na dau ddangosydd yn y Fframwaith Perfformiad sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth, mae pob dangosydd wedi cyflawni o leiaf 85% o'u gwerth carreg filltir erbyn diwedd 2018 neu

    - Mae na dri dangosydd neu fwy yn y Fframwaith Perfformiad sy'n gysylltiedig â blaenoriaeth, mae pob dangosydd ac eithrio un wedi cyflawni o leiaf 85% o'u gwerth carreg filltir erbyn diwedd 2018 a'r un dangosydd nad yw wedi cyflawni 85% o'i werth carreg filltir wedi cyflawni o leiaf 75% o'i werth carreg filltir

11. Mewn sefyllfa lle mae un neu fwy o Flaenoriaethau yn Rhaglen yn methu â chwrdd â’u  cerrig milltir, mae'n bosibl y bydd y Gronfa Perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Blaenoriaethau hynny yn dal i gael ei hailddyrannu ymhlith y Blaenoriaethau sydd wedi cyflawni eu cerrig milltir.

**Arweinydd yn WEFO: Gavin Lewis**
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford**
**Dyddiad:**

## Tabl 1: Rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflawnwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant (€M)[1] | 455 | 458 | >100% | 72 | 93 | >100% | 86 | 19% | >100% |
| 1 | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil | 1,800 | 1,678 | 93% | 345 | 369 | >100% | 451 | 25% | >100% |
| 2 | Gwariant (€M)[1] | 333 | 333 | 100% | 52 | 137 | >100% | 136 | 41% | >100% |
| 2 | Buddsoddi mewn mentrau (£M) | 191 | 191 | 100% | 78 | 101 | >100% | 58 | 30% | 74% |
| 3 | Gwariant (€M)[1] | 246 | 108 | 44% | 39 | 41 | >100% | 22 | 9% | 56% |
| 3 | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni | 2 | 2 | 100% | 1 | 1 | 100% | 0 | 0% | 0% |
| 3 | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | 8 | 4 | 50% | 3 | 2 | 67% | 1 | 13% | 33% |
| 3 | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell | 3,060 | 3,060 | 100% | n/a | n/a | n/a | 0 | 0% | n/a |
| 3 | Caffaelwyd contractwyr i gyflawni'r targed terfynol o gartrefi gyda dosbarthiad gwell y eu defnydd o ynni | n/a | n/a | n/a | Yes | Yes | n/a | No | n/a | No |
| 4 | Gwariant (€M)[1] | 763 | 904 | >100% | 120 | 120 | 100% | 58 | 8% | 48% |
| 4 | Canran o'r dyraniad ariannol â blaenoriaeth y rhoddwyd cyfrif amdano gan gytundebau er mwyn cyflawni gwaith seilwaith | n/a | >100 | n/a | 35 | 52 | >100% | 56 | n/a | >100% |
| 4 | Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd | 24 | 24 | 100% | n/a | n/a | n/a | 0 | 0% | n/a |
| 4 | Prosiectau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Rheoli ar ôl dilyn proses flaenoriaethu gytûn | n/a | 55 | n/a | 3 | 35 | >100% | 37 | n/a | >100% |
| 4 | Tir wedi'i ddatblygu (Ha) | 100 | 162 | >100% | n/a | n/a | n/a | 0 | 0% | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Rhagfyr 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio.
[2] Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

## Tabl 2: Rhaglen ERDF Dwyrain Cymru: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflawnwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant (€M)[1] | 202 | 198 | 98% | 32 | 41 | >100% | 31 | 15% | 96% |
| 1 | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil | 540 | 549 | >100% | 32 | 96 | >100% | 12 | 2% | 38% |
| 2 | Gwariant (€M)[1] | 91 | 76 | 83% | 14 | 58 | >100% | 58 | 64% | >100% |
| 2 | Buddsoddi mewn mentrau (£M) | 80 | 96 | >100% | 80 | 96 | >100% | 96 | >100 | >100% |
| 3 | Gwariant (€M)[1] | 9.7 | 8 | 86% | 1.5 | 0.00 | 0% | 0.00 | 0% | 0% |
| 3 | Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell | 765 | 765 | 100% | n/a | n/a | n/a | 0 | 0% | n/a |
| 3 | Caffaelwyd contractwyr i gyflawni'r targed terfynol o gartrefi gyda dosbarthiad gwell y eu defnydd o ynni | n/a | n/a | n/a | Yes | Yes | n/a | No | n/a | No |
| 4 | Gwariant (€M)[1] | 96 | 81 | 85% | 15 | 16 | >100% | 16 | 17% | >100% |
| 4 | Canran o'r dyraniad ariannol â blaenoriaeth y rhoddwyd cyfrif amdano gan gytundebau er mwyn cyflawni gwaith seilwaith | n/a | >100 | n/a | 75 | 95 | >100% | 85 | n/a | >100% |
| 4 | Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd | 5 | 1 | 10% | n/a | n/a | n/a | 0 | 0% | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Rhagfyr 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio.
[2] Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

## Tabl 3: Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflawnwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant (€M)[1] | 238 | 194 | 82% | 53 | 53 | >100% | 48 | 20% | 90% |
| 1 | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000 | 43,803 | >100% | 9,182 | 15,486 | >100% | 13,425 | 37% | >100% |
| 1 | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 10,800 | 19,198 | >100% | 2,755 | 8,078 | >100% | 7,235 | 67% | >100% |
| 2 | Gwariant (€M)[1] | 471 | 526 | >100% | 133 | 201 | >100% | 201 | 43% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion | 26,000 | 27,891 | >100% | 9,666 | 14,313 | >100% | 11,724 | 45% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod | 31,692 | 32,961 | >100% | 8,801 | 16,574 | >100% | 11,710 | 37% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Dynion | 20,693 | 22,739 | >100% | 4,099 | 11,352 | >100% | 6,675 | 32% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Menywod | 23,874 | 27,419 | >100% | 3,732 | 13,479 | >100% | 6,954 | 29% | >100% |
| 3 | Gwariant (€M)[1] | 329 | 341 | >100% | 84 | 99 | >100% | 99 | 30% | >100% |
| 3 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 42,700 | 50,407 | >100% | 10,891 | 26,195 | >100% | 22,369 | 52% | >100% |
| 5 | Gwariant (€M)[1] | 22 | 0 | 0% | 0 | n/a | n/a | - | 0% | n/a |
| 5 | Nifer o brosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol | 4 | - | 0% | 1 | 1 | 100% | - | 0% | 0% |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Rhagfyr 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio.
[2] Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

## Tabl 4: Rhaglen ESF Dwyrain Cymru: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018[2] | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflawnwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant (€M)[1] | 64 | 37 | 58% | 13 | 13 | >100% | 8 | 12% | 59% |
| 1 | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 12,700 | 14,368 | >100% | 3,239 | 7,435 | >100% | 3,413 | 27% | >100% |
| 1 | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 3,800 | 6,209 | >100% | 969 | 3,609 | >100% | 1,766 | 46% | >100% |
| 2 | Gwariant (€M)[1] | 178 | 235 | >100% | 60 | 98 | >100% | 98 | 55% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion | 10,000 | 10,888 | >100% | 5,380 | 6,011 | >100% | 5,391 | 54% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod | 12,000 | 12,650 | >100% | 4,898 | 6,770 | >100% | 6,336 | 53% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Dynion | 9,372 | 9,873 | >100% | 1,642 | 5,065 | >100% | 3,551 | 38% | >100% |
| 2 | Cyfranogwyr cyflogedig sydd ag addysg uwchradd is - Menywod | 11,309 | 12,240 | >100% | 1,495 | 6,492 | >100% | 4,044 | 36% | >100% |
| 3 | Gwariant (€M)[1] | 132 | 159 | >100% | 31 | 37 | >100% | 37 | 28% | >100% |
| 3 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 21,200 | 27,123 | >100% | 5,407 | 13,449 | >100% | 8,065 | 38% | >100% |
| 5 | Gwariant (€M)[1] | 31 | 0 | 0% | 0 | n/a | n/a | - | 0% | n/a |
| 5 | Nifer o brosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol | 4 | - | 0% | 1 | 1 | 100% | - | 0% | 0% |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

[1] Mae'r rhagolygon Gwariant Cymwys yn geidwadol ac yn seiliedig ar y rhagolygon presennol a ragwelir i fis Rhagfyr 2018 ac wedi'u haddasu ar gyfer yr amrywiant cyfredol i broffil. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i geisiadau cyllid a gyflwynir gael eu gwirio.
[2] Seilir rhagolygon ar ddata o brosiectau a gymeradwyir ar hyn o bryd ac maent yn rhagdybio y bydd gweithrediadau'n yn dilyn eu proffil.

## Tabl 5: Rhaglen Datblygu Gwledig: Dangosyddion Fframwaith Perfformiad

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflanwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflanwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€m) | 121.7 | 115.3 | 95% | 29.2 | 36.6 | >100% | 23.3 | 19% | 80% |
| 2 | Nifer o daliadau a gefnogwyd | 2,431 | 721 | 30% | 243 | 595 | >100% | 354 | 15% | >100% |
| 3 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€m) | 108.6 | 147.2 | >100% | 26.1 | 37.0 | >100% | 29.3 | 27% | >100% |
| 3 | Nifer o daliadau a gefnogwyd | 165 | 509 | >100% | 58 | 99 | >100% | 99 | 60% | >100% |
| 4 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€m) | 415.5 | 374.7 | 90.19% | 99.7 | 177.9 | >100% | 177.9 | 43% | >100% |
| 4 | Arwynebedd (ha) a gefnogwyd | 706,387 | 779,000 | >100% | 600,429 | 659,415 | >100% | 659,415 | 93% | >100% |
| 5 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€m) | 80.5 | 75.5 | 94% | 19.3 | 21.3 | >100% | 19.9 | 25% | >100% |
| 5 | Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd | 583 | 504 | 86% | 187 | 504 | >100% | 226 | 39% | >100% |
| 5 | Arwynebedd (ha) a gefnogwyd | 63,711 | 113,715 | >100% | 51,606 | 71,648 | >100% | 71,648 | >100% | >100% |
| 6 | Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd | 653 | 238 | 36% | 131 | 81 | 62% | 65 | 10% | 50% |
| 6 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€m) | 206.2 | 200.3 | 97% | 49.5 | 30.0 | 61% | 26.1 | 13% | 53% |
| 6 | Poblogaeth a gynnwyswyd gan LAG | 1,381,745 | 1,381,745 | 100% | 1,381,745 | 1,381,745 | 100% | 1,381,745 | 100% | 100% |

Ffynhonell: WEFO, 30-11-2018

## Tabl 6: Rhaglen Datblygu Gwledig: Dangosyddion Fframwaith o ran Perfformiad Arall

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Targed terfynol erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon erbyn diwedd 2023 | Rhagolygon cyfran o darged 2023 | Targed carreg filltir erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon erbyn diwedd 2018 | Rhagolygon cyfran o darged 2018 | Cyflawnwyd hyd yn hyn | Cyfran o darged 2023 a gyflanwyd | Cyfran o darged 2018 a gyflanwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd | 120 | 120 | 100% | 42 | 80 | >100% | 80 | 67% | >100% |

Ffynhonell: WEFO, 30-11-2018

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD (ESI) 2014 – 2020:**

**GWEITHREDU'R THEMA DRAWSBYNCIOL: TRECHU TLODI AC ALLGÁU CYMDEITHASOL**

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu'r adolygiad blynyddol o gynnydd a gweithrediad y thema drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng nghronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) ERDF ac ESF 2014 -2020.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a darparu sylwadau yn unol â hynny.

## Cefndir

3. Ewrop 2020 yw Llwyfan yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn erbyn Tlodi, sy'n cefnogi ffocws y Comisiwn ar drechu tlodi ac allgau cymdeithasol ac a fydd yn cyflawni targed 2020 yr UE o 20 miliwn yn llai o bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru hefyd ac mae'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi (TPAP) yn nodi'r targedau a'r cerrig milltir sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru er mwyn lleihau tlodi yng Nghymru.

4. Mae gweithgarwch sy'n cael ei ariannu gan ESI sy'n cefnogi agendâu cyffredin Comisiwn yr UE a Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi yn cael eu gweithredu drwy Flaenoriaeth benodol ESF, wedi'i hategu gan Thema Drawsbynciol yn benodol ar gyfer Cymru i annog gweithgarwch cysylltiedig ehangach ar draws holl raglenni'r ESI.

5. Yng Nghymru, mae tlodi yn cael ei ddiffinio fel 'cyflwr hirdymor o beidio cael adnoddau digonol i allu fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu i gyfranogi mewn gweithgareddau (er enghraifft mynediad at gymdogaethau deniadol a mannau agored) sy'n cael eu cymryd yn ganiataol gan eraill mewn cymdeithas'. Mae cyswllt cryf felly rhwng Allgáu Cymdeithasol neu'r gallu i gyfranogi â Thlodi.

6. Bwriedir i'r Cronfeydd ESI fynd i'r afael ag achosion tlodi yn hytrach na mynd i'r afael â'r canlyniadau: gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio camau gweithredu ar leihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad waith.

**Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

7. Mae'r ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a goresgyn tlodi drwy thema drawsbynciol yn canolbwyntio ar yr amcanion allweddol canlynol:

- creu swyddi a thwf sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sy'n ddi-waith
- mynd i'r afael â'r rhwystrau at gyflogaeth sy'n cynnwys sgiliau gwael, diffyg darpariaeth gofal plant neu opsiynau trafnidiaeth cyfyngedig, helpu mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth;
- canolbwyntio ar dwf wedi'i alinio ag ymyriadau datblygu sgiliau, a galluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael mynediad at swyddi medrus iawn â chyflogau gwell.

8. Yn yr un modd â Themâu Trawsbynciol Datblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, mae gweithgareddau penodol sy'n ceisio sicrhau bod tlodi ac anghenion y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi a gwahaniaethu, yn ganolog i bob gweithrediad.

**Trechu Tlodi drwy'r Rhaglenni ESF**

9. Mae'r rhaglenni ESF wedi'u creu ar sail tair Echel Flaenoriaeth hollbwysig; Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth a Chyrhaeddiad i Bobl Ifanc. Yn unol â Rheoliadau ESF, mae o leiaf 20% o gyllid ESF yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i 'hybu cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu' ac mae'n canolbwyntio ar Drechu Tlodi drwy'r Flaenoriaeth Cyflogaeth Gynaliadwy. Mae'r Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar leihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn arbennig i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, y rhai â sgiliau isel neu ddim sgiliau o gwbl, neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur, a lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur, yn arbennig menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig.

10. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn cydnabod nad yw'r risg o dlodi, gwahaniaethu ac allgáu wedi'u cyfyngu i unigolion di-waith. Mae camau gweithredu sy'n cael eu cyflawni drwy Flaenoriaethau eraill yn y Rhaglenni hefyd yn cyfranogi yn y gwaith o leihau tlodi a'r risg o dlodi e.e. mae'r Echel Flaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf yn cefnogi pobl mewn swyddi cyflog isel, oriau isel neu dros dro, yn ogystal â gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu sgiliau arwain a rheoli sy'n hyrwyddo datblygiad y gweithlu, cynnydd cyflogeion a chyfleoedd i weithwyr rhan amser. Yn yr un modd, mae'r Echel Flaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc yn cefnogi camau gweithredu sy'n cynyddu'r gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl ifanc a lleihau'r effeithiau y gall cyfnodau o ddiweithdra neu NEET eu cael ar incwm a thlodi yn yr hirdymor.


11. Cyflwynir adroddiadau cynnydd am ganlyniadau penodol y Blaenoriaethau hyn i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a darperir enghraifft o brosiect sy'n cyflawni fel rhan o Flaenoriaeth 3 Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc isod.

12. Mae **GO Wales: Cyflawni Drwy Brofiad Gwaith,** yn cael ei ariannu drwy Flaenoriaeth 3 Rhaglenni ESF yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Cynlluniwyd y prosiectau Cymru gyfan hyn er mwyn lleihau'r risg y bydd myfyrwyr mewn addysg uwch yn dod yn NEET, yn arbennig y rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol, darparu amrediad o weithgareddau er mwyn gwella cyflogadwyedd a gwella eu gallu yn y dyfodol i sicrhau cyflogaeth neu symud i ddysgu pellach yn seiliedig ar lwybrau gyrfa priodol.




13. Mae'r prosiectau yn canfod cyflogwyr a chyfleoedd profiad gwaith addas er mwyn cynorthwyo'r cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, a gallu dangos yn well eu bod yn barod am waith a chyflogadwyedd uwch ar ôl cwblhau eu cymwysterau. Yn ogystal â phobl anabl, mae pobl o gefndiroedd mudol a phobl sy'n gadael gofal yn profi lefelau uwch na'r cyfartaledd o dlodi. Mae'r gweithgareddau a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan y prosiectau hyn yn ceisio gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogadwyedd y rhai sy'n cyfranogi yn y dyfodol, a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn profi tlodi yn y dyfodol.





14. Mae'r prosiectau hyd yma (Medi 2018) wedi cefnogi 692 cyfranogwr, y mae 60% ohonynt wedi datgan bod ganddynt anabledd neu Gyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio (WLHC) gan gynnwys Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a chyflwr iechyd meddwl, daw 8% o gefndir mudol, mae gan 8% gyfrifoldeb gofalu ac mae 3% wedi gadael gofal.

**Trechu Tlodi drwy'r Rhaglenni ERDF**

15. Prif ffocws Rhaglenni ERDF Cymru yw hybu twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy ar draws maes y rhaglen. Bydd llawer o'r swyddi sy'n cael eu creu yn berthnasol i aelodau newydd a phobl sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur, gan greu cyfleoedd i ymyriadau ESF dargedu grwpiau penodol sy'n cyd-fynd â buddsoddiadau ERDF. Cyflwynir gwybodaeth reolaidd am gynnydd yn erbyn y targedau creu swyddi ERDF i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

16. Yn ogystal â dulliau targedu generig ERDF ar gyfer creu swyddi, mae cyfleoedd yn bodoli yn y rhaglenni i dargedu nodweddion penodol tlodi. Yn adroddiad y Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni y llynedd, soniwyd am y 'cais' penodol i brosiectau ddod ymlaen i wneud cais am gyllid o dan Echel Flaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni. Roedd y 'cais' yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu cynlluniau ynni cymunedol arloesol amrywiol: trechu tlodi tanwydd oedd ffocws allweddol y flaenoriaeth hon. Hysbyswyd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni bod pedwardeg dau o geisiadau wedi'u derbyn, a chafodd deg o'r rhain eu cyflwyno ar gyfer y cam gynllunio busnes ac y byddai diweddariad ar gynnydd y cynlluniau ynni cymunedol sy'n ceisio trechu tlodi tanwydd yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn.

17. Ym mis Tachwedd 2018, roedd dau o'r deg prosiect wedi'u cymeradwyo, gyda'r wyth sy'n weddill yn y cam cynllunio busnes: **System Ynni Micro Grid Aml-Dechnoleg Generation Storage Consumption Supply (GSCS)** - bydd y prosiect hwn yn galluogi i ynni adnewyddadwy solar a gwynt gael ei gynhyrchu (yn ogystal ag ynni carbon isel megis cyfuno gwres a phŵer) gael ei storio a'i ryddhau i gymunedau. Bydd defnyddio micro-grid preifat a mesuryddion deallus yn lleihau cost pŵer o gymharu â'r prisiau manwerthu. Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi dulliau o wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, yn arbennig cartrefi pobl sy'n debygol o wynebu'r risg o dlodi tanwydd. Bydd yn darparu saith prosiect ynni adnewyddadwy bychan ar gyfer busnesau lleol. Safleoedd y saith cynllun ynni busnes/cymunedol yw:

- Nant-y-Gwyddon, Y Gelli, Y Rhondda
- Ystâd Ddiwydiannol Rassau, Rassau, Glynebwy
- Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-Fan, Caerffili
- Y Bathdy Brenhinol, Parc Busnes Llantrisant, Pontyclun
- Parc Bwyd Sir Benfro, Hwlffordd
- Parc Bwyd Cross Hands, Cross Hands
- Y Pentref Llesiant, Llynnoedd Delta, Llanelli

18. **Storfa Solar Gymunedol Abertawe gyda Chyflenwad Lleol Uniongyrchol -** Mae'r prosiect hwn yn bwriadu creu cyfleuster storio newydd ar fferm solar bresennol 1MW mewn partneriaeth â chyflenwr ynni trwyddedig, er mwyn gallu rheoli grid mewn ffordd ddeallus a chyfateb angen ar gyfer cyflenwad trydan lleol i gwmni cydweithredol o hyd at 300 o ddefnyddwyr lleol (preswyl a busnes) sy'n defnyddio mesuryddion deallus. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect hwn, a fydd yn broceru ymgysylltiad rhwng grwpiau cymunedol presennol a grwpiau newydd; gweithio gyda'r gymuned i greu setiau o sgiliau a hyder uwch ymhlith aelodau'r gymuned a darparu cefnogaeth i'r rhai â'r angen mwyaf i fabwysiadu mesur arbed ynni yn eu cartrefi er mwyn lleddfu tlodi tanwydd.

19. Mae cyfle pellach yn bodoli yn y rhaglenni ERDF i dargedu nodweddion penodol tlodi drwy Gymorth Busnes, gyda'r fenter ganlynol sy'n cael ei datblygu yn ardal Wrecsam, yn cael effaith fawr ar y gymuned leol o weithwyr mudol o Wlad Pwyl.

**Menter Cymorth Busnes Pwylaidd Busnes Cymru**

20. Ar ôl derbyn adborth drwy ei rwydweithiau nad oedd busnesau Pwylaidd yn ymgysylltu â chymorth busnes a bod diffyg ymddiriedaeth gyffredinol canfyddedig o asiantaethau megis HMRC, penderfynodd Busnes Cymru i gymryd camau cadarnhaol.




21. Fe wnaethant gynnal gweithdy yn benodol ar gyfer busnesau Pwylaidd: 'Cychwyn a Rhedeg Busnes: Rhoi Cynnig Arni'. Daeth trideg dau o bobl i'r gweithdy a gynhaliwyd yn Hwb Wrecsam gyda chymorth cyfieithydd.

22. Yn y gweithdy, rhoddwyd cyfle i'r mynychwyr drefnu apwyntiadau un i un gyda Rheolwr Cysylltiadau Busnes Cymru, er mwyn annog ymgysylltiad â'r rhaglen ac i gefnogi eu busnesau presennol. Ers iddynt gymryd rhan yn y gweithdy, mae deuddeg o fusnesau Pwyleg yn gweithio gyda Busnes Cymru yn awr, ac mae deuddeg busnes arall wedi dechrau masnachu.

23. Hefyd o ganlyniad i'r gweithdy hwn a'r gweithgarwch dilynol, sefydlwyd fforwm busnes newydd yn Hwb Busnes Cymru yn Wrecsam ar gyfer y gymuned Bwylaidd, gyda chefnogaeth gan lwyfan Facebook. Mae manylion am hyn ar gael yn: **SIEMA Biz Forum** **https://www.facebook.com/SiemaBizForum/**

24. Mae'r fforwm hwn yn cwrdd unwaith y mis, lle cynhelir sesiwn rhwydweithio, ffrwd fideo gan arbenigwr o'r diwydiant, a chyfle i fusnesau Pwylaidd wneud ceisiadau i'r rhwydwaith. Mae hyn wedi ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru ac ar hyn o bryd mae tua 5,000 o ddefnyddwyr yn gwylio'r ffrwd fideo yn fyw.



25. Mae Rheolwr Perthynas Busnes Cymru wedi disgrifio'r effaith gadarnhaol y mae'r gweithgarwch hwn yn ei gael ar economi Cymru a gwella rhagolygon pobl Bwylaidd yn y DU tu hwnt 2020. Un o sgil-effeithiau cadarnhaol y gweithgarwch hwn yw bod Busnes Cymru wedi cynorthwyo cleient i greu Canolfan Cymorth Integreiddio Pwylaidd sydd, fel menter gymdeithasol cychwyn busnes, yn darparu cefnogaeth llesiant i ysgolion.

**Dangosyddion a Thargedau sy'n cyfrannu at y Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

26. Mae yna amrediad o ddangosyddion â thargedau cysylltiedig sy'n cefnogi'r gweithgareddau a nodwyd fel yr ysgogwyr allweddol ar gyfer trechu achosion tlodi yng Nghymru. Mae gan y dangosyddion hyn gylch gwaith ehangach na'r Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi ac maent yn helpu i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud ar yr agenda trechu tlodi yn y Rhaglenni yn gyffredinol. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dadansoddiad o'r dangosyddion a'r cynnydd penodol hyd yma.

**Dangosyddion Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol**

27. Yn ogystal â'r dangosyddion a'r targedau ffurfiol, mae dangosyddion ychwanegol lefel prosiect y Themâu Trawsbynciol wedi'u nodi (y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni ym Mehefin 2015) sy'n galluogi WEFO i ddenu amrediad ehangach o weithgarwch a galluogi i arfer da gael ei nodi a'i ddosbarthu. Mae'r wybodaeth yn **Atodiad 2** yn rhoi syniad o'r amrediad o weithgarwch sy'n cael ei ddarparu. Mae'r data a ddarperir yn cynnwys cymhariaeth gyda'r hyn a ddarparwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf yn Rhagfyr 2017, sy'n dangos y cynnydd a wnaed dros y cyfnod. Dylid nodi hefyd bod gorgyffyrddiad sylweddol gyda'r gweithgarwch sy'n cyfrannu at y Thema Drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym Mehefin 2018.

**Y camau nesaf**

28. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos y cynnydd a wneir ar ddangosyddion ffurfiol y Themâu Trawsbynciol a gweithgarwch ychwanegol ar lefel prosiectau, ochr yn ochr ag enghreifftiau astudiaethau achos o brosiectau sy'n darparu gweithgarwch sy'n cefnogi'r Thema Drawsbynciol hon.

**Lluniwyd gan: Chriss O'Connell WEFO**

**Cymeradwywyd gan: Rob Halford WEFO**

**Dyddiad: 06 /12/2018**

## Atodiad 1 Dangosyddion Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

## ERDF:

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.2 | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 5,150 | 6,000 | 673 | 2,200 | 4,000 | 296 |
| AP3.2 (AP3.1 Dwyrain Cymru) | Cynlluniau ynni cymunedol | 37 | 1 | - | 3 | - | - |
| AP3.3 (AP3.2 Dwyrain Cymru) | Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni | 5,500 | 3,060 | - | 4,200 | 765 | - |
| AP4.2 (AP4.1 Dwyrain Cymru) | Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella | 2,500,000 | - | - | 420,000 | - | - |
| | Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella | 25 | 58 | 6 | 5 | 16 | - |
| AP4.3 (AP4.2 Dwyrain Cymru) | Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd | 28,000 | 98,334 | 52,352 | 28,000 | 46,801 | 42,872 |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.1 | Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 5,999 | 15,051 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael | 33% | 60% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 50% | 50% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP1.2(AP1.1 Dwyrain Cymru) | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000 | 43,803 | 13,425 | 12,700 | 14,368 | 3,413 |
| | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 10,800 | 19,198 | 7,235 | 3,800 | 6,209 | 1,766 |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 30% | 25% | 50% | 23% | 17% |
| | Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 28% | 28% | 50% | 21% | 19% |
| AP1.3 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 4,000 | 11,328 | 3,410 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael | 50% | 0% | 64% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

# Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AP2.1 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is – Dynion | 26,841 | 27,891 | 11,724 | 10,888 | 10,888 | 5,391 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is – Menywod | 31,692 | 32,961 | 11,710 | 12,650 | 12,650 | 6,336 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael – Dynion | 72% | 79% | 57% | 72% | 80% | 54% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael – Menywod | 72% | 79% | 55% | 72% | 80% | 53% |
| AP2.2 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion | 20,693 | 22,739 | 6,675 | 9,372 | 9,873 | 3,551 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) – Menywod | 23,874 | 27,419 | 6,954 | 11,309 | 12,240 | 4,044 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch – Dynion | 60% | 79% | 52% | 60% | 80% | 52% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 60% | 80% | 49% | 60% | 81% | 48% |


## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc


| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AP3.1 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 42,700 | 50,407 | 22,369 | 21,200 | 27,123 | 8,065 |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is | 20% | 42% | 29% | 20% | 45% | 31% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael | 17% | 17% | 22% | 17% | 17% | 30% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael | 28% | 28% | 23% | 28% | 29% | 23% |
| AP3.2 | Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed) | 49,700 | 27,787 | 9,355 | 13,000 | 8,943 | 2,522 |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2) | 7% | 0% | 0% | 27% | 0% | 0% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael | 19% | 13% | 5% | 18% | 13% | 7% |
| AP3.3 | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion | 8,400 | 8,824 | 3,328 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod | 15,000 | 11,377 | 4,311 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion | 45% | 9% | 4% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod | 45% | 5% | 1% | n/a | n/a | n/a |
| AP3.4 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - dynion | 300 | 137 | 25 | n/a | n/a | n/a |


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - menywod | 2,700 | 2,712 | 577 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion | 77% | 79% | 32% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod | 77% | 77% | 37% | n/a | n/a | n/a |


Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2018

**Atodiad 2** Mae'r siartiau canlynol yn dangos yr ymrwymiad y mae gweithrediadau wedi'u gwneud i ddarparu gweithgarwch sy'n cyfrannu at y thema drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.




Dangosyddion Lefel Achosion Cyffredinol Themâu Trawsbynciol ERDF
140
120
100
80
60
40
20
0
Sep-16
Oct-17
Nov-18
Stakeholder engagement good practice activity
Developing / engaging CCT champions
Integration of social clauses
CCT toolkit, base line mechanism, App development
CCT training package developed.
CCT staff training programme introduced.
Activity supporting CCT indicators


Dangosyddion Lefel Achosion Cyffredinol Themâu Trawsbynciol ESF
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Sep-16
Oct-17
Nov-18
Stakeholder engagement good practice activity
Developing / engaging CCT champions
Integration of social clauses
CCT toolkit, base line mechanism, App development
CCT training package developed.
CCT staff training programme introduced.
Activity supporting CCT indicators

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, Y CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD (2014 – 2020):**

**Y Strategaeth Monitro a Gwerthuso – Y datblygiadau diweddaraf**

**Mater**

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch hynt y gwaith o weithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed a rhoi eu sylwadau arno.

**Cefndir**

3. Mae Erthygl 110(1) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin yn dweud y bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn craffu ar hynt y gwaith o weithredu'r cynllun gwerthuso[1], a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r gwerthusiadau. Hefyd, rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf. Y Tîm Strategaeth sy'n arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

**Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed**
Wedi'r oedi cyn dechrau ar y gwaith, cafodd **Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop** ei roi ar waith ym mis Chwefror 2018. Hyd yn hyn, ar ôl cwblhau cylchoedd 1 a 2 o'r arolwg, mae ein contractwyr, IFF Research, wedi llwyddo i gynnal 7,980 o gyfweliadau â chyfranogwyr a oedd wedi ymadael â gweithrediadau a oedd yn gysylltiedig â'r Gronfa o leiaf 12 mis cyn cynnal yr arolwg.

Y nod yw casglu data i'n helpu i werthuso effeithiolrwydd y cymorth a ariennir gan y Gronfa. Hefyd, defnyddir yr arolwg i gasglu data ar gyfer dangosyddion canlyniadau hirdymor y mae'n rhaid i WEFO adrodd arnynt wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn ei Adroddiadau Gweithredu Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae'r Tîm Strategaeth wedi rhannu'r setiau o ddata lefel weithredu, a luniwyd o'r arolwg, gyda'r contractwyr sy'n cynnal y gwerthusiadau o Brentisiaethau, ReAct, Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Strategaeth yn dadansoddi'r data o'r arolwg, ac rydym yn disgwyl cynhyrchu rhai allbynnau yn 2019.

Cafodd y **Gwerthusiad o Seilwaith yr ERDF** ei ddyfarnu i Regeneris Consulting ym mis Mai 2018.

[1]Yng Nghymru, cyfeirir at y cynllun gwerthuso fel y Strategaeth Monitro a Gwerthuso.

Mae tri nod i'r gwerthusiad hwn:

1. ymchwilio i sut mae'r seilwaith newydd gwell yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal;

2. ymchwilio i weld a yw'r seilwaith newydd gwell yn y tri rhanbarth yng Nghymru (y Gogledd, y De-orllewin a'r Canolbarth, a'r De-ddwyrain) yn cydweithio, ac os felly sut maent yn gwneud hynny er budd pob rhanbarth o ran ei economi leol, ei drigolion, a'i fusnesau;

3. ystyried pa mor ymarferol fyddai cynnal gwerthusiad o effeithiau'r seilwaith, gan nodi'r dulliau gweithredu a argymhellir.

Dyma'r mathau o seilwaith sy'n cael eu cynnwys yn y gwerthusiad:

- **Band eang:** Uwchraddio'r seilwaith band eang mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o gynlluniau masnachol ar gyfer cyflwyno band eang cyflym iawn.
- **Y ffyrdd a'r rheilffyrdd:** Adeiladu a gwella ffyrdd, llinellau rheilffordd, a gorsafoedd rheilffordd.
- **Safleoedd ac eiddo:** Adeiladu a gwella safleoedd ac eiddo ar gyfer busnesau. Mae hyn hefyd yn cynnwys prosiectau adfywio canol trefi.
- **Campysau addysg bellach:** Adeiladu canolfannau dysgu i fyfyrwyr 16 ac yn hŷn.
- **Campysau arloesi:** Adeiladu canolfannau ymchwil a datblygu, yn aml fel rhan o sefydliadau addysg uwch. Adeiladu capasiti er mwyn i gwmnïau a sefydliadau addysg uwch allu datblygu cynnyrch, prosesau, a gwasanaethau newydd a gwell, a'u darparu.
- **Twristiaeth:** Gweithgareddau i wella safleoedd ac atyniadau i dwristiaid.

Yn ystod camau cynnar y gwerthusiad, bu Regeneris yn adolygu dogfennau a data prosiectau a rhaglenni, yn ogystal â'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid. Ar sail y gwaith hwn, mae Regeneris wedi nodi 50 o brosiectau ar draws rhaglenni 2000-2006 a 2007-2013, a fydd yn cael eu hadolygu'n fanwl. Bydd yr adolygiadau hyn (ynghyd â'r ymchwil ar ddefnyddwyr a nodir isod) yn cael eu defnyddio i asesu nod 1 y gwerthusiad. Mae'r adolygiadau'n seiliedig ar gyfuniad o ymchwil a wneir wrth y ddesg, dadansoddiadau o setiau data eilaidd, cyfweliadau â'r sawl sydd wedi derbyn grantiau, a cheisiadau am ddata.

Cwblhau gwaith maes gyda defnyddwyr y seilwaith a ariennir fydd y cam nesaf ar ôl cynnal yr adolygiadau o brosiectau (hy arolygon o fuddiolwyr). Cyfyngir hyn i'r seilwaith a ariennir gan yr 50 o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn yr arolygiadau o brosiectau. Caiff y gwaith ei ategu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a strategol, partneriaethau economaidd, cyrff yn y sector, a grwpiau cymunedol o'r ardaloedd clwstwr a nodir gan Regeneris, yn ogystal ag arolygon ar gyfer busnesau a thrigolion yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r fanyleb ar gyfer y **Gwerthusiad o Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol** wedi ei chymeradwyo, a byddwn yn gwahodd ceisiadau tendro ddechrau'r flwyddyn newydd. Nod cyntaf y gwerthusiad yw asesu cynnydd y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol o ran

cyflawni eu hamcan cyffredinol o sicrhau bod pob rhanbarth yng Nghymru yn cael y manteision gorau o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Rydym yn credu ei bod yn rhy gynnar i werthuso a yw'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol wedi cyflawni'r amcan hwn, ond rydym yn disgwyl i'r gwerthusiad asesu a yw'r gweithgareddau'n briodol ac a yw'r strwythurau a chysylltiadau priodol yn eu lle i allu cyflawni'r amcan.

Ail nod y gwerthusiad yw darparu argymhellion i hwyluso gweithgareddau'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol. Bydd yr argymhellion hyn yn weithredol am weddill cyfnod y rhaglenni, a byddant yn berthnasol hefyd i'r dulliau gweithredu a ddefnyddir i ymgysylltu'n rhanbarthol mewn perthynas â Buddsoddi Rhanbarthol ar ôl Brexit.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Tîm Strategaeth wedi dechrau datblygu manyleb ar gyfer **Gwerthuso Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.** Rydym yn disgwyl i'r broses gaffael ar gyfer y gwerthusiad hwn ddechrau'n gynnar yn 2019.

Mae'r gwaith o **werthuso'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig** wedi cael ei ddyfarnu i'r cwmni ymchwil SQW a dechreuodd ar y gwaith maes yn ystod 2018. Mae'r gwaith maes wedi mynd rhagddo ychydig yn arafach na'r disgwyl oherwydd yr oedi cyn i'r contractwyr gael mynediad at ddata monitro cyswllt ffermio, er mwyn iddynt eu defnyddio fel sail i gasgliadau data dilynol. Hyd yn hyn, mae'r gwaith maes wedi cynnwys creu pedwar grŵp ffocws, cyfweld â rhanddeiliaid, a dadansoddi'r wybodaeth fonitro sy'n bodoli eisoes. Bydd cam nesaf yr ymchwil, sef y prif gam, yn cynnwys cynnal astudiaethau achos helaeth o'r gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o Cyswllt Ffermio. Caiff casgliadau'r flwyddyn gyntaf hon o waith maes eu cyflwyno ddechrau 2019.

Yn ystod 2018, bu'r Tîm Strategaeth yn gweithio gyda Pobl a Gwaith i gynnal yr **Astudiaeth Cwmpasu ar gyfer Cymorth Ffoaduriaid.** Dechreuodd y gwaith maes yn gynnar yn 2018, gan ddechrau gydag adolygiad helaeth o lenyddiaeth er mwyn ystyried y dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, cyn lansio prif gam yr ymchwil a oedd yn cynnwys cyfweliadau rhannol strwythuredig â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. At ei gilydd, cynhaliwyd 454 o gyfweliadau ledled Cymru, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn y 4 ardal gwasgaru. Cafodd y cyfweliadau hyn eu hategu gan gyfweliadau â darparwyr cymorth, cyrff cyflogi yn y sector, a gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad terfynol sy'n deilio o'r ymchwil hon yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, a disgwylir iddo ddod i law ym mis Ionawr 2019. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ddechrau 2019.

Mae'r Tîm Strategaeth wedi gwahodd ceisiadau tendro ar gyfer gwerthuso **Cynllun Rheoli Cynaliadwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.** Nod y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yw cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n gweithredu ar raddfa tirwedd, ac sy'n esgor ar weithgarwch sy'n gwella adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau fferm a busnesau gwledig, yn ogystal â chymunedau gwledig. Bydd y gwerthusiad yn mynd ati i gynnal ymchwil hirdymor sydd â'r nod o asesu sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu, ynghyd â'i ganlyniadau a'i effeithiau. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddeall natur a gwerth gweithgarwch cydweithredol, yn ogystal â deall sut mae'r cynllun wedi gwella effeithiolrwydd arferion rheoli tir, a'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach a allai ddeillio o'r dulliau gweithredu hynny. Cynhelir y gwerthusiad am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, sef

o fis Ionawr 2019 hyd at fis Rhagfyr 2020, gyda'r opsiwn o ymestyn y cyfnod hwnnw am ddwy flynedd arall er mwyn caniatáu iddo werthuso holl gyfnod y cynllun ac asesu canlyniadau mwy tymor hir.

Mae'r Tîm Strategaeth wedi bod yn paratoi ar gyfer yr **adroddiad blynyddol manylach ar weithredu'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2019**. Mae'r adroddiad yn un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd sy'n nodi cyfres o 30 o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin i'w gofyn er mwyn asesu canlyniadau ac effeithiau ar draws y rhaglen. Mae'r Tîm Strategaeth wedi gwahodd ceisiadau tendro ar gyfer y gwaith hwn, a fydd yn ôl pob tebyg yn digwydd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Gorffennaf 2019. Rhagwelir y bydd un o elfennau allweddol y gwaith yn cynnwys arolygu a syntheseiddio data a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei chasglu drwy'r prosesau monitro, y gwerthusiadau sy'n parhau i gael eu cynnal, ac ymchwil arall a wneir. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ategu gan gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol, a gan ddibynnu ar y cynigion sy'n dod i law gan ymgeiswyr sydd am wneud y gwaith, mae'n bosibl y cynhelir arolwg o fuddiolwyr cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae'r Tîm Strategaeth hefyd wedi bod yn ymwneud ag ymchwil fewnol a gynhaliwyd ar raddfa fach gan Ymchwilwyr yn Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, er mwyn edrych ar brofiadau ymgeiswyr i'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.** Dechreuodd yr ymchwil hon tuag diwedd 2018, a bydd yn parhau tan ddechrau 2019.

### Y Grŵp Cynghori ar Fonitro a Gwerthuso

Cyfarfu'r Grŵp Cynghori ar Fonitro a Gwerthuso ym mis Chwefror a mis Tachwedd 2018. Trafododd y Grŵp y materion canlynol: hynt y gwahanol astudiaethau gwerthuso; y manylebau drafft ar gyfer y gwerthusiadau o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, ac Arweinydd y Rhaglen Datblygu Gwledig; dulliau gweithredu ar gyfer ymdrin â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data; a data agored.

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020

# Cynllun Ymdrin â Chyfathrebu ac Ymgysylltu WRN SU 2018/19

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu'r dull o gyhoeddi'r Cynlluniau a ariennir drwy gyfrwng Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 (WGRC-RDP) ar gyfer y cyfnod 2018/19. Fe'i lluniwyd i gynnwys y cyfnod penodol hwn ond fe saif ochr yn ochr â'r Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ehangach ar gyfer y Rhaglen gyfan.

Mae'n cydnabod yr ansicrwydd sy'n codi yn ystod y cyfnod hwn a'r ansicrwydd cynyddol ynglŷn ag a fydd y DU yn gadael yr UE 'â chytundeb' ynteu 'heb gytundeb'. Fodd bynnag, yn y cyfamser, rydym yn cydnabod ei bod yn holl bwysig glynu wrth ein hymrwymiad i gyflenwi'r rhaglen, drwy ddarparu dilyniant i'r rhanddeiliaid er mwyn iddynt allu cynllunio a gwneud y gorau o gyllid y Rhaglen.

Lluniwyd y Strategaeth Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd gyffredinol ar gyfer y Rhaglen, ac mae'n disgrifio'r camau arfaethedig a fyddai'n cael eu cymryd i roi sylw i ofynion rheoliadau'r UE, a'r sianelau a fyddai'n cael eu defnyddio i gyfathrebu â'n his-grwpiau rhanddeiliaid. Mae'r Strategaeth yn ddogfen lefel uchel, y gellir atodi wrthi ddiweddariadau blynyddol a chynlluniau cyfathrebu ar lefel Cynlluniau.

## 2. Nodau ac Amcanion

- Cyfathrebu ynglŷn â'r rhaglen ar draws Cymru drwy barhau i hybu'r ddarpariaeth Cronfeydd UE yng Nghymru a'u manteision.
- Gweithio â noddwyr a rhanddeiliaid gan ddefnyddio nifer o sianelau cyfathrebu i roi cyhoeddusrwydd i gynnydd, cyflawniadau ac effaith: hysbysiadau'r wasg / cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol megis Twitter, Facebook, YouTube a'r e-gylchlythyr,
- Drwy gyfrwng y dulliau cyfathrebu uchod, annog pawb sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd cymunedol i gyfranogi er mwyn datgloi'r potensial yn ein heconomi wledig.
- Ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r newid sydd ei angen i wireddu'r uchelgais sy'n cael ei datgan yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb
- Annog ystod eang o randdeiliaid i gyflwyno syniadau ac atebion i roi hwb i gymunedau ac i'r economi.
- Dangos sut mae'r arian yn helpu i greu economi wledig, gan annog y diwydiant amaethyddol a chymunedau gwledig i ddatblygu eu busnes yn awr ac er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.
- Dangos y rôl bositif y mae Arian RDP wedi'i chwarae ac yn dal i'w chwarae i wella economïau lleol, drwy roi cyhoeddusrwydd i brosiectau a gymeradwywyd ar y gronfa ddata o brosiectau.
- Dangos yr hyn y mae arian RDP wedi'i gyflawni'n uniongyrchol i gefnogi bywydau'r rheini sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, drwy ddefnyddio sianeli digidol a thechnoleg newydd, cynhyrchu deunydd ffilm

digidol i roi cyhoeddusrwydd yn weledol i negeseuon allweddol, ac astudiaethau achos o brosiectau.

**3. Negeseuon Allweddol**

*Ar lefel y Rhaglen mae'r nodau a'r negeseuon canlynol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu'n aros fel y maent i raddau helaeth:*

*Bydd y buddsoddiad saith mlynedd hwn o oddeutu £745 miliwn gan Lywodraeth Cymru a'r UE yn y Gymru wledig yn rhoi hwb i'n heconomi wledig drwy ddarparu dros ugain o lwybrau nawdd i gefnogi popeth, o ddatblygu gwell opsiynau gofal plant gwledig, i greu cynlluniau ynni cymunedol, i wella arferion rheoli tir.*

*Mae bod yn aelod o'r UE yn bwysig i Gymru ac i'r Gymru wledig yn arbennig – mae'r UE wedi buddsoddi oddeutu £290 miliwn yn y Gymru wledig drwy gyfrwng yr RDP diwethaf ac mae i'r Rhaglen hon y potensial i adeiladu ar y llu o swyddi a grëwyd hyd yma dan Gynlluniau Datblygu Gwledig blaenorol.*

*Y ffocws ar gyfer y saith mlynedd nesaf yw gwella cynaliadwyedd economaidd y diwydiant amaethyddiaeth, o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd a chreu'r busnes iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

*Islaw lefel y Rhaglen, mae amrywiol negeseuon priodol yn cael eu llunio ar gyfer yr is-grwpiau rhanddeiliaid amrywiol dan sylw. Ac ystyried ein bod yn disgwyl i'r pwysau mwyaf ddod oddi wrth y sector amaethyddiaeth amlinellir sut y bwriadwn ymdrin â hyn isod.*

**4. Cyfathrebu Rhwydwaith Gwledig Cymru - Cynlluniau Tir ac Economaidd-gymdeithasol**

Yn unol â rheoliadau'r UE, cafodd Rhwydwaith Gwledig Cymru ei sefydlu i drefnu rhwydweithio, hyfforddiant a chyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth i gefnogi'r broses o weithredu a chyflenwi Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.

Mae'r WRNSU yn rhoi cymorth rhwydweithio ac yn cyfathrebu drwy'r sianeli canlynol:

**Cylchlythyrau:** Cyfrannu pob pythefnos / mis i roi'r newyddion diweddaraf i bartneriaid a rhanddeiliaid ar y prif ddatblygiadau drwy Gylchlythyr GWLAD / Cylthlythyr Rhwydwaith Gwledig Cymru

**E-fwletin:** Wrth arwain at ddechrau'r cynllun ac ar y diwrnod, hyrwyddo diweddariad dwyieithog yn allanol drwy Randdeiliad Rhwydwaith Gwledig Cymru

**Gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru / Rhaglen Datblygu Gwledig:** Sicrhau bod cynnwys y We wedi'i ysgrifennu'n gywir ac yn cydymffurfio â chanllaw Diwyg Llywodraeth Cymru; rhoi manylion ystadegau ar weithgarwch y we.

**Cyfryngau cymdeithasol:** Twitter / Facebook Rhwydwaith Gwledig Cymru - diweddariadau drwy sianeli swyddogol Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo a rhannu newyddion / diweddariadau yr UE.

**Digwyddiadau:** Trefnu a rheoli digwyddiadau busnes i hyrwyddo pob cyfle

**Digwyddiadau Perisgop:** Trefnu / Hyrwyddo a chynnal digwyddiadau byw pwrpasol i helpu pobl i ddeall y cynllun

**Astudiaethau achos:** Gweithio gyda'r tîm Polisi / buddiolwyr y Prosiect i gasglu gwybodaeth am brosiectau a gymeradwywyd. Derbyn gwybodaeth fanwl am gyllid, disgrifiad o'r prosiect a lluniau, bydd rhain yn cael eu creu fel dogfennau unigol a'u cyhoeddi ar dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru ar y We, a'u hyrwyddo ymhellach yng Nghylchlythyr GWLAD/ RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU, Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER ledled Cymru a thrwy Cymru / DU a'r UE fel enghreifftiau gwych o Gyllid.

**Rheoli Dogfennau y Cynllun:** Yn unol â Rheoliad yr UE, rheoli y broses o gyhoeddi dogfennau'r cynllun i gefnogi cyfnodau'r cynllun sy'n cynnwys cyfieithiad Cymraeg o Feini Prawf Datganiadau o Ddiddordeb a'r Cais a'r Canllawiau.

**Gwybodaeth a Chanllawiau Cyhoeddusrwydd:** Rheoli yr Wybodaeth a'r Cyhoeddusrwydd ar draws pob un o gynlluniau y Cynllun Datblygu Gwledig, llywio a chefnogi buddiolwyr prosiectau gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr UE drwy: Brandio a Logos, Placiau a'r Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus.

**Rheoli yr holl gysylltiadau â'r Cyfryngau i gynnwys:**

- Cyhoeddiadau Gweinidogol, datganiadau ysgrifenedig ac ymweliadau / Datganiadau i'r wasg ac ymweliadau prosiect.
- Y Trywydd i'w Ddilyn o ran Staff y Rheng Flaen / erthyglau ar y Rhyngrwyd, storïau newyddion, cyhoeddi digwyddiadau a phrosiectau.

5. **<u>Cymryd rhan yn Nigwyddiadau Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (ENRD) / yr UE</u>**

Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cymryd rhan ac wedi cyfrannu at weithgareddau Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop er mwyn gwella'r broses o roi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith. Digwyddiadau a fynychwyd yn 2018:

- EIP-AGRI, yr Eidal - Seminar “o brosiect grŵp gweithredol i gyflawni effaith”
- LINC 2018, Y Ffindir – Cynhadledd “Natur a'r economi las”
- ENRD, yr Eidal – Gweithdy "Sut y mae Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol yn cefnogi'r Cynllun Datblygu Gwledig”
- 10fed Digwyddiad y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, yr Almaen – Gweithdy “Datblygu gwledig - Adeiladu'r dyfodol"
- 11fed Digwyddiad y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, Tsiecoslofacia - Gweithdy ar gyfathrebu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol
- 12fed Digwyddiad y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, Estonia - Gweithdy "Cynllunio gwefan a phecyn cymorth Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop; Cynllunio cynhadledd 2019”
- Gweithdy Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop ar Enghreifftiau o Brosiectau ac Arferion Da - 8 Tachwedd 2018

## 6. Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru

- Cafodd tri chyfarfod eu cynnal yn 2018 lle trafodwyd materion allweddol gan gynnwys dyfodol y grŵp llywio a gwaith cynllunio digwyddiadau.
- Cafwyd diweddariad ar gynllun gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru ar gyfer 2018 yn ystod cyfarfod cyntaf y flwyddyn

## 7. Datblygu Gwefan/TG Rhwydwaith Gwledig Cymru

Yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i symud yr holl gynnwys i wefan du a gwyn beta.gov gwnaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru gynnal proses gaffael ar gyfer adeiladu safle rhwydwaith penodol ar Blatfform Busnes Cymru https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy

- Bydd hyn yn galluogi'r Uned Gefnogi i barhau i wella dulliau, arferion a phrosesau ar gyfer cyfathrebu allanol.
- Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn parhau i wella'r wefan a bydd gan Grwpiau Gweithredu Lleol gyfrifoldebau cyhoeddi o safbwynt enghreifftiau o brosiectau.
- Mae'r safle newydd yn cynnwys map rhyngweithiol, sy'n tynnu sylw mewn modd gweledol at yr holl gyllid sydd wedi'i ddyfarnu hyd yma ac sy'n cynnwys manylion yr holl brosiectau perthnasol.
- Bydd yr adran newyddion yn cynnwys gwybodaeth am holl gyllid yr UE sydd wedi'i ddyfarnu, dyddiadau agor cynlluniau a gwybodaeth ategol allweddol.
- Mae'r tudalennau ar y we wedi'u cysylltu â'n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, gan hwyluso cyfathrebu allanol drwy sianeli eraill.
- Pump o ffilmiau byr sydd wedi'u caffael ac sy'n tynnu sylw at brosiectau wedi'u cyhoeddi ar YouTube a bydd yn cael ei hyrwyddo drwy Dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru.
- Mae manylion dros 400 o brosiectau LEADER wedi'u cyhoeddi ar y tudalennau Prosiect rhyngweithiol newydd. Mae nifer ohonynt bellach yn cynnwys dolenni i dudalennau gwe byw neu astudiaethau dichonoldeb.

## 8. Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

- Cymeradwyo strategaeth gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer 2018
- Cylchlythyr Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru - 10 rhifyn; cynnydd o 50% yn nifer y darllenwyr i dros 6,000 o danysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg.
- Diweddariadau pythefnosol drwy eGylchlythyr Gwlad
- Rhwydwaith Gwledig Cymru'n cymeradwyo'r holl ddatganiadau i'r wasg ac yn cynnig cymorth o ran cyfathrebu allanol â buddiolwyr.
- tua 6 o straeon yr wythnos yn cael eu hychwanegu at y dudalen newyddion, gyda phwyslais mwy unwaith y bydd yn fyw ar y platfform newydd
- Cyfryngau Cymdeithasol – Nifer y dilynwyr ar Twitter yn cynyddu o 185 i 1400; mae gan y dudalen Facebook a lansiwyd ym mis Tachwedd 2017 bellach 120 o ddilynwyr. Negeseuon rheolaidd ar Twitter/Facebook; aildrydariadau gyda dyfyniadau a negeseuon hyrwyddo/ negeseuon Facebook ynghylch cyfnodau cynlluniau yn ddyddiol
- Creu astudiaethau achos i'w defnyddio ar wefan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru a chymryd rhan yng Ngwobrau Arloesedd Gwledig. (Caiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2019)

## 9. Digwyddiadau a Chyfranogaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y DU

Y prif ddigwyddiadau a drefnwyd ac a fynychwyd yn ystod 2018

- Cynhadledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yng Nghaeredin - Wedi cynnal digwyddiad 'Blas ar Gymru' ac wedi tynnu sylw at weithgareddau Rhwydwaith Cymru yn y Farchnadle.
- Digwyddiad Thema 1 & 2 LEADER – Chwefror – Yn cynnwys cyflwyniadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol a chyflwyniadau ar Gynlluniau.
- Cydweithredu LEADER – Hydref – Rhedeg digwyddiad ar y cyd â Grŵp Gweithredu Lleol PLANED a chydweithwyr o'r Ffindir.
- Ymweliad Astudio Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop – Gorffennaf – yn cefnogi Tom Jones; Cynrychiolwyr o 8 o wledydd.
- Cyfarfodydd Datblygu Lleol a Arweinir gan Gymunedau - Cynrychiolwyr ac Ysgrifenyddiaeth
- Cyfarfodydd Swyddogion Grwpiau Gweithredu Lleol y De-orllewin - Cynrychiolwyr
- Pobl a Chymunedau - Is-grŵp Bord Gron Brexit - Cynrychiolwyr ac Ysgrifenyddiaeth
- Hydro Corwen – Ymweliad gan Weinidog - Ebrill – Wedi'i gefnogi a'i fynychu gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru
- Green Vale – Ebrill – Stondin/Cynrychiolwyr
- Sioe Amaethyddol Bro Morgannwg – Awst - Stondin/Cynrychiolwyr
- Ail Ddiwrnod Arferion Gorau - Arwain - Canolfan Adnoddau'r Cyfryngau - Llandrindod - Hydref
- Rhaglen Grantiau Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant - Hydref

- Wedi trefnu gweithdy Llinell Gymorth Gwerthuso y DU ar gyfer LEADER/CLLD

| *Cynllun Gwaith RhGC - a gymeradwywyd gan y Grŵp Llywio* | | *Gweithgareddau am y Cyfnod 2018/2019* | |
|---|---|---|---|
| ***Rhwydweithio*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel Cymru*** | ***Gweithgareddau 2018/2019*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnwys Rhanddeiliaid** | Annog cydweithrediad trawswladol ymysg busnesau a phrosectau GGLlau.<br><br>Cefnogi chwiliadau partner ar gyfer mesurau Erthygl 35.<br><br>Monitro gweithgaredd a chysylltu â rhwydweithiau eraill. | Trefnu digwyddiadau ymgynghori, hyfforddi a rhwydweithio yn unol â'r galw gan arweinwyr y Cynllun, rhanddeiliaid, y Grŵp Llywio a'r GGLlau.<br><br>Annog a hwyluso cydweithrediad rhyngdiriogaethol ymysg GGLlau, busnesau a phrosiectau.<br><br>Monitro a chefnogi gweithgaredd rhwydweithio gan sefydliadau eraill. | Rhannu rheolaeth GGLlau yn ddaearyddol rhwng pob rheolwr WRNSU.<br><br>Cyhoeddi Cylchlythyr RhGC sy'n hyrwyddo newyddion/astudiaethau achos/ymarfer da a diweddariadau o Gymru/y DU/Ewrop (bob 4-6 wythnos).<br><br>Casglu a chyhoeddi Ymarfer Da/Astudiaethau Achos a'u cyhoeddi ar wefan RhGC.<br><br>Cynhyrchu canllawiau cydweithredu ar gyfer y DU, cylchredeg a chynghori ynglŷn â chwiliadau partner ar bob lefel.<br><br>Mynychu digwyddiadau RhYC y DU a sicrhau bod cydweithrediad rhyngdiriogaethol ar yr agendâu. Cyfrannu newyddion, gweithgareddau a phresenoldeb mewn digwyddiadau a chyfarfodydd ar y porthol a rennir ar gyfer RhYC y DU.<br><br>Mynychu gweithgaredd rhwydweithio cefnogol gan bartneriaid a rhanddeiliad rhaglenni eraill e.e. RhEAABCh.<br><br>Annog mabwysiadu dull cyffredin i gydweithredu ymysg Rhwydweithiau/Awdurdodau Rheoli'r DU.<br><br>Cefnogi ffurfio clwstwr y DU/ yr Iwerddon. |
| ***Gweithgaredd RhDGE*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel Cymru*** | ***Gweithgareddau 2018*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwella ansawdd gweithredu ac integreiddio'r CDG â pholisïau datblygu cyfredol** | Cymryd rhan mewn gweithgareddau RhDGE a chyfrannu ynddyn nhw. | Casglu enghreifftiau o brosiectau sy'n ymdrin â holl flaenoriaethau'r CDG.<br><br>Hwyluso cyfnewidiadau thematig a dadansoddol rhwng rhanddeiliaid yn ôl yr angen gan y Grŵp Llywio a'r ARh.<br><br>Rhannu a lledaenu ymarfer gorau a monitro a gwerthuso'r canfyddiadau.<br><br>Cymryd rhan a chyfrannu mewn gweithgareddau RhYC y DU. | Sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn digwyddiadau RhDGE.<br><br>Cynrychioli Cymru/cyflwyno a chymryd rhan mewn digwyddiadau RhDGE/CLEDG yn ôl yr angen.<br><br>Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau RhDGE gan GGLlau/FLAGs drwy gylchlythyrau a gwefannau ac anfon newyddion ymlaen at randdeiliaid perthnasol.<br><br>Lanlwytho astudiaeth achos/deunydd ymarfer gorau o'r CDG diwethaf ayyb i wefan RhDGE.<br><br>Cynnal proffil a dylanwad Cymru gyda RhDGE a chymuned rwydweithio ehangach yr UE.<br><br>Disgwyl cyfarwyddyd i drefnu digwyddiadau thematig neu ymweliadau astudio priodol neu ddigwyddiadau cyfnewid ar gyfer cynlluniau neu themâu.  Cyfarfodydd RhYC y DU i'w cynnal ym mhob rhanbarth yn eu tro ac ymgorffori ymweliadau llwyddiannus ar gyfer y cynllun. |
| ***Cyfathrebiadau*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** | ***Cyfathrebiadau*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hysbysu'r cyhoedd ehangach a buddiolwyr posibl** | Trefnu gweithgareddau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd y CDG.<br><br>Datblygu offer cyfathrebu er mwyn hysbysu'r cyhoedd ehangach a rhanddeiliaid ynglŷn â gweithgaredd y CDG.<br><br>Rhannu a lledaenu canfyddiadau monitro a gwerthuso drwy RhDGE. | Cynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth ynglŷn â'r CDG wedi'u hanelu at y cyhoedd ehangach.<br><br>Darparu gweithgareddau gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi'u hanelu at fuddiolwyr a'r cyhoedd ehangach.<br><br>Rhannu a lledaenu canfyddiadau monitro a gwerthuso drwy RhYC y DU.<br><br>Bod yn ymwybodol o flaenoriaethau LlC a chyfathrebiadau Gweinidogol.<br><br>Cyhoeddi bod y cynllun a'r ffenestri ymgeisio ar agor.<br><br>Gweithio gyda Thimau Cyfathrebiadau allanol i fwyhau cyfleoedd cyfathrebu'r CDG. | Trefnu digwyddiadau, seminarau, cynadleddau, teithiau maes, ymweliadau astudiaeth ayyb, er mwyn hysbysu'r cyhoedd a buddiolwyr posibl ynglŷn â'r CDG a'r gweithgareddau y mae'n eu cefnogi.<br><br>Trefnu a chefnogi presenoldeb CDG yn Sioe Frenhinol Cymru a'r holl ymgyrchoedd – yn mynd ymlaen.<br><br>Monitro blwch e-bost mewnol a llinell gyswllt ffôn ar gyfer y WRNSU.<br><br>Cynnal a diweddaru'r wefan, cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol a'r llyfrgell ddogfen yn barhaus. Mae Facebook wedi cael ei ychwanegu yn awr ar bortffolio'r WRNSU.<br><br>Gweithio gyda Thîm y We a Gwlad, a Glastir ayyb er mwyn sicrhau bod cynlluniau a ffenestri ymgeisio yn cael eu cyhoeddi drwy sianelau priodol.<br><br>Ymdrin â blaenoriaethau'r ARh a'r Grŵp Llywio drwy weithgareddau'r cyfathrebiadau – yn mynd ymlaen.<br><br>Diweddaru cyfathrebiadau'r CDG a'r deunyddiau hyrwyddo er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau polisi a chyfleoedd CDG, yn cynnwys cynhyrchu inffograffeg a llyfryn CDG cryno.<br><br>Trefnu a dosbarthu placiau ar gyfer buddiolwyr y Rhaglen. |
| ***Cyfathrebiadau*** | ***Meysydd gwaith*** | ***Meysydd gwaith*** | ***Gweithgareddau 2018*** |

| | *allweddol ar lefel yr UE* | *allweddol ar lefel Cymru* | |
|---|---|---|---|
| Cyfathrebiadau'r ARh | | Gweithio gyda swyddfeydd y Gweinidogion, Cyfoeth Naturiol, timau hysbysu WEFO ac YAY i gytuno ar brotocolau a sianelau cyfathrebu mewnol LlC. | Cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr cyfathrebiadau yn CN, YAY a WEFO.<br><br>Sicrhau bod cynlluniau a ffenestri ymgeisio yn cael eu cyhoeddi drwy sianelau mewnol priodol.<br><br>Cadeirio fforwm cyfathrebiadau deufisol rheolaidd ar gyfer arweinwyr Cynlluniau a chyfranwyr rhaglenni.<br><br>Arwain lle y bo'n briodol a chyfrannu at ymdrechion cyfathrebiadau mewnol, yn arbennig felly ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Rhaglenni.<br><br>Hyrwyddo cyfleoedd i Weinidogion gyhoeddi'r CDG – yn mynd ymlaen. |
| Meithrin Arloesedd | Monitro gwaith pwynt cyswllt yr EIP. | Monitro gwaith Cynllun EIP gan Cyswllt Ffermio.<br><br>Cefnogi gweithgareddau rhwydweithio ar gyfer cynghorwyr a gwasanaethau cefnogi arloesi yn ôl yr angen. | Trefnu digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer broceriaid gwasanaethau cefnogi arloesi yn unol â'r galw.<br><br>Cynghori a chyfrannu wrth sefydlu grwpiau arloesi gweithredol a threfnu digwyddiadau yn ôl y galw.<br>Cyfarfod â Chyswllt Ffermio, Menter a Busnes a Lantra yn rheolaidd.<br><br>Lledaenu'r canfyddiadau fel y bo angen.<br><br>Cwrdd â Chyswllt Ffermio ayyb i drafod gweithrediad y pecyn cefnogi arloesi. |

| ***Blaenoriaethau Cymru*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel Cymru*** | ***Gweithgareddau 2018*** |
|---|---|---|---|
| Cefnogi'r cyflawniad o themâu trawsbynciol | | Hyrwyddo Cyfleoedd Cyfartal a phrif-ffrydio rhywedd, Datblygu Cynaliadwy ac Ymdrin â Thlodi yn y CDG, fel sydd eu hangen gan y Grŵp Llywio a'r ARh. | Ymdrin â gweithgareddau cytunedig.<br><br>Cyfarfodydd rheolaidd gyda WEFO er mwyn cytuno ar gyfleoedd hyrwyddo ar y cyd. |
| Cefnogi integreiddio â Chronfeydd ESI eraill | | | Gweithredu ar unrhyw argymhellion ESI gan y PMRh.<br>Monitro trafodaethau PMRh.<br>Chwilio am gyfleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau ar y cyd.<br>Trafod cyfleoedd mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda WEFO.<br>Cefnogi cyswllt aelodau'r Grŵp Llywio â'r PMRh. |
| Helpu i ymwreiddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn y rhaglen | | Sicrhau bod gweithgareddau yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â pholisi.<br><br>Cysylltu digwyddiadau thematig â nodau llesiant. | Gweithio gyda WEFO a'r adran datblygu Cynaliadwy er mwyn datblygu dull ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Cynyddu gwybodaeth WRNSU ynglŷn â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Archwilio cyfleoedd i ymwreiddio'r Ddeddf wrth weithredu'r rhaglen gyda phartneriaid mewnol ac allanol.<br><br>Defnyddio'r dull yn yr holl ddigwyddiadau a'r gweithgareddau. |
| Hwyluso DLlAG drwy EMFF | | Trefnu digwyddiadau GGLl/FLAG ar y cyd. | Gweithio gyda GGLlau/FLAGs ac arweinwyr Cynllun *Leader* er mwyn nodi a hyrwyddo cyfleoedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Gweinyddu*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel yr UE*** | ***Meysydd gwaith allweddol ar lefel Cymru*** | ***Gweithgareddau 2018*** |
| Swyddogaeth Ysgrifenyddiaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru | Sefydlu Grŵp Llywio RhGC erbyn Ebrill 2016. | Datblygu a chynnal cynllun gwaith RhGC. | Trefnu 3-4 o gyfarfodydd y grŵp llywio bob blwyddyn.<br><br>Darparu ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth lawn ar gyfer cyfarfodydd.<br><br>Cytuno ar gynllun gwaith gyda'r grŵp llywio.<br><br>Cyflawni gweithgareddau sydd yn y cynllun gwaith. |
| Rheoli Prosiect Rhwydwaith Gwledig Cymru | Darparu UGRh. | Rheoli prosiect RhGC. | Cyflwyno hawliadau prosiect ar amser bob chwarter.<br><br>Sicrhau cydymffurfiaeth rheoli ac archwilio.<br><br>Cynnal digon o staff ac adnoddau er mwyn cyflawni'r Cynllun gwaith. |
| Monitro a Gwerthuso | Adroddiad AGB | Adrodd ESI gan PMRh. | Cyflwyno adroddiadau AGB a PMRh erbyn y dyddiadau cau. |

**WELSH GOVERNMENT RURAL COMMUNITIES – RURAL DEVELOPMENT PROGRAMME FOR WALES 2014-2020**

**WALES PROGRAMME MONITORING COMMITTEE, EUROPEAN STRUCTURAL AND INVESTMENT FUNDS 2014 – 2020:**

**Proposals for the Remaining Programme**

**Issue**

1. During the September 2018 Programme Monitoring Committee meeting, concerns were raised regarding the modification submitted to the European Commission in June 2018 and in particular Priority 6.

2. This paper provides the response from Welsh Government.

**Recommendation**

3. PMC Members are asked to note the paper.

**Background**

The specific concerns raised by members were:

- The way the changes to the RDP, including reducing the funding to the RCDF scheme has been done without meaningful consultation with the PMC i.e. no opportunity for PMC to discuss the proposed changes.
  **Information regarding the proposed changes made as part of the modification were presented to PMC during the December 2017 meeting. This was followed up by a request for PMC opinion by written procedure in June 2018.**
  **Article 49(3) of Regulation 1303/2013 states that the monitoring committee shall be consulted and shall, if it considers it to be appropriate, give an opinion on any amendment of the Programme proposed by the Managing Authority. Although this is usually carried out during a PMC meeting, the requirement to submit the modification before the end of June 2018 in order to amend Performance Framework targets meant that on this occasion, a written procedure was used.**

- The way the PMC has been "misled" i.e. seeking an opinion from members in an e-mail and making it clear that members were not asked to approve the changes but proceeding with the changes anyway as reported in Annex 1 of the

Programme modifications report.
**The PMC has not been misled. The PMC does not have the authority to approve modifications, only to provide an opinion if it feels this is appropriate. No opinions or comments on the proposed modification were received. Therefore the modification was submitted without amendment.**

- The financial reduction means that there will be less opportunity for rural communities to secure funds for socio-economic development in rural areas.
**As with all programme modifications there is a need to consider the delivery of the programme as a whole as well as individual schemes and Measures. In this case there is less opportunity for rural communities to secure funds for capital works under the Rural Community Development Fund, however there are other opportunities throughout the programme.**

- The reasoning given for the reduction i.e. lack of capacity amongst groups to access the funds is unfair given the complexities of the process. This is misleading as applying for RCDF is an extremely difficult, if not impossible, and arduous process, with the complex WEFO online process, communications difficulties and a lack of clarity all proving to be a major barrier for groups.
- There was a specific action in the minutes from the last PMC meeting on the 4th of May for Eleanor Marks to look at the process of applying to the RCDF. As far as we are aware this has not happened.
**These two points have been considered together.**
**The guidance on the UK Treasury guarantee, which will come into effect in the case of no deal being reached in EU/UK exit negotiations, at the time of the meeting, and at the time of submitting the modification, restricted funds to those projects approved by March 2019. If RCDF had continued as it was, given the length of time it takes to reach a fully approved project, we would not be able to meet the conditions of the HMT guarantee and hence lose the funding completely.**
**The programme is delivering through an extremely challenging and constantly changing environment. Welsh Government needs to be able to manage the risk of non delivery, or being unable to draw down all EU funds by proposing amendments such as this, based on all information known at the time. A further modification will follow in early 2019 to make further amendments in light of changes to both the economic climate and risks associated to potential reliance on the HMT guarantee, as well as the need to provide for a smooth transition to post Brexit activities.**

**The main reason for the decrease is that delivery to date has demonstrated that there are a number of fundamental issues that are adversely impacting the scheme and that this is the case regardless of which sub-Measure we**

**are trying to deliver. Foremost amongst these are the fact that the complexity of the application process for small groups means that they often do not reach full approval stage. This is aggravated by the lack of a dedicated support mechanism that can help the volunteers behind many of the projects and the uncertainty that the confusion around Brexit is causing.**

**The table below illustrates the high level of applications failing to materialise following invitations to submit. The average rate of drop out from first stage application to full application across Measure 7 for the RCDF scheme is over 40%.**

| ***Measure*** | ***Old RCDF target*** | ***Number of Approved Applications*** | ***Applications not received*** | ***Number of applications in appraisal*** | ***drop out rate of RCDF applications*** |
|---|---|---|---|---|---|
| *7.1* | *100* | *0* | *0* | *18* | *0.00%* |
| *7.2* | *56* | *3* | *7* | *3* | *53.85%* |
| *7.3* | *49* | *3* | *13* | *2* | *72.22%* |
| *7.4* | *168* | *73* | *58* | *16* | *39.46%* |
| *7.5* | *100* | *19* | *22* | *11* | *42.31%* |
| *7.6* | *80* | *10* | *6* | *6* | *27.27%* |
| *7.7* | *50* | *9* | *15* | *2* | *57.69%* |
| *7.8* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0.00%* |
| ***total*** | ***603*** | ***117*** | ***121*** | ***58*** | ***40.88%*** |

**To address this we have undertaken a complete review of approach and have launched a totally new scheme which combines Measure 7 (with the exception of 7.1) and sub-Measure 16.2 plus other Welsh Government domestic schemes. This means that there will be no future rounds of RCDF in its current form.**

**The new scheme, called the Environment Natural Resources and Wellbeing Grant, has been designed by the Environment and Communities Division of the Welsh Government. This will allow for a simplified and more targeted approach to delivery, plus a clear strategic focus. The aim is to utilise the pilot and co-operation possibilities under 16.2 to develop a support and facilitation service for communities and third sector groups and to pilot that during the remainder of the current RDP. Alongside this we will be**

**engaging the Leader Local Action Groups and encouraging them to underpin the service as well as working with local authorities to help form groups of projects either geographically or by theme and help develop a peer support network.**

**It is hoped that these changes, together with aligning Measure 7 activity with the quality of the built environment, resource efficiency, resilient ecosystem actions possible under 16.2 and the Welsh Government objectives in these areas will generate an increase in activity. However, we are well into the delivery of the programme and it would not be sensible to maintain the level of targets originally envisaged and it is prudent to reallocate some of the funds to meet other pressures within the RDP.**

- WLGA and LAGs have raised concerns with WG officials over the last 3 years concerning the complexities and difficulties in accessing the funds. The problems lay with the process rather than the applicant per se.
  **Welsh Government have taken these comments on board and a number of improvements have been put in place, including better FAQs being made available on the website for applicants. Welsh Government will continue to reflect on this and consider how the application process can be simplified.**

  **Since January 2018, SMU has been part of the Welsh Paying Agency. This move has allowed some of the SMU functions to be moved and aligned with the functions and resources of the Paying Agency. Examples of this are the introduction of a customer facing and dedicated Customer Contact Centre for all socio economic beneficiaries, all RDP Operations and process being brought together under one team, Claims Processing moved from SMU to the Divisions Multi Skilled claims processing teams and using the Paying Agencies ICT system (CAPIT/RPW online) for delivery of all farmer schemes i.e. Farm Business Grant and Sustainable Production Grant schemes have been moved onto the CAPIT/RPW Online system. All these changes have allowed the team in SMU to focus specifically on project appraisals.**

- The Community Led Local Development (CLLD) steering group which acts as a consultation and communication mechanism for stakeholders, grant applicants, LAGs and community groups has not met since January, the lack of communication has compounded the difficulties summarised above. At the last CLLD Group meeting in January there was a discussion on options to improve

the process for applying for RCDF but there has been no engagement since that discussion. This reflects a wider concern regarding the lack of engagement from Welsh Government from a CLLD policy perspective since the last meeting of the CLLD Group in January.

**The CLLD group met on 10th December 2018.**

**ESNR Lead: Gordon Smith**
**Approved by: Ruth Studley**
**Date: 20 December 2018**